Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 21 Mehefin 2018 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 15 Mehefin 2018.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir Dianne Rees (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Bale, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Goddard, Goodway, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lent, Lister, Mackie, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Molik, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

17 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Congreve, Gordon, Howells, Lay, McEvoy, Morgan, Murphy a Stubbs.

18 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.
-

| Cynghorydd | Eitem | Buddiant |
|---|---|---|
| Pob Cynghorydd | Eitem 22 – Atodlen Tâl Cydnabyddiaeth i Aelodau 2018-19 i’w cyhoeddi’n unol â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. | Buddiant personol fel Cynghorwyr sy'n cael tâl cydnabyddiaeth a osodwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. |
| Y Cynghorwyr Phil Bale, Rodney Berman, Joe Boyle, Jayne Cowan, Daniel De’Ath, Sean Driscoll, Lisa Ford, Russell Goodway, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Lyn Hudson, Mike Jones-Pritchard, | Eitem 11 – Cronfa Caerdydd a Bro Morgannwg – Diwygiad i'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Pensiynau Lleol a hwythau'n Aelodau o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. | Buddiant personol a hwythau’n aelodau o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. |

| Cynghorydd | Eitem | Buddiant |
|---|---|---|
| Ashley Lister, Sarah Merry, Michael, Rod McKerlich, Dan Naughton, Oliver Owen, Thomas Parkhill, Michael Phillips, Adrian Robson, Emma Sandrey, Elaine Simmons, Kanaya Singh, Rhys Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, David Walker, Caro Wild a Joel Williams. | | |
| Y Cynghorydd Dianne Rees | Eitem 11 – Cronfa Caerdydd a Bro Morgannwg – Diwygiad i'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Pensiynau Lleol a hwythau'n Aelodau o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. | Buddiant personol a hwythau'n aelodau o Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. Hefyd, buddiant Personol ac ariannol gan ei fod yn adnabod Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol. |
| Y Cynghorydd Carter | Eitem 7 - Ymgynghoriad – Papur Gwyrdd Trafnidiaeth ac Aer Glân Caerdydd | Buddiant personol oherwydd ei fod yn gyflogai i elusen sy'n ymgyrchu mewn perthynas â Llygredd Awyr. |
| Y Cynghorydd Rhys Taylor | Eitem 7 - Ymgynghoriad – Papur Gwyrdd Trafnidiaeth ac Aer Glân Caerdydd | Buddiant personol oherwydd ei fod yn gyflogai i elusen sy'n ymgyrchu mewn perthynas â Llygredd Awyr. |
| Y Cynghorydd Hudson | Eitem 13 - Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Craffu Cymunedau a Gwasanaethau Oedolion 2017-2018 Ac Eitem 17 – Aelod Cabinet, Gofal Cymdeithasol. Iechyd a Llesiant – Cynghorydd Elsmore | Buddiant personol gan fod aelod o'r teulu'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol. |

| Cynghorydd | Eitem | Buddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Bradbury | Eitem 18 – Cynnig 1 | Buddiant personol ac yntau'n un o ymddiriedolwyr Chwaraeon Caerau a Threlái ac yn ddeiliad Tocyn Tymor Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd. |
| Y Cynghorydd Driscoll | Eitem 23 - Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol i Gyrff Llywodraethu Ysgolion | Buddiant personol mewn perthynas â phenodiad a gynigiwyd fel Llywodraethwr Awdurdod Lleol. |
| Y Cynghorydd Owen Jones | Eitem 23 - Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol i Gyrff Llywodraethu Ysgolion | Buddiant personol mewn perthynas â phenodiad a gynigiwyd fel Llywodraethwr Awdurdod Lleol. |

19 : COFNODION

Cymeradwywyd bod cofnodion cyfarfodydd Blynyddol ac Eithriadol y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Mai 2018 yn gofnod cywir, ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd.

20 : CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Cwestiwn Cyhoeddus gan Dr Alexandra Phillips i'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau.

Cwestiwn – Dr. Phillips

Mae trigolion Gogledd Caerdydd angen Sicrwydd nad yw Cyngor Caerdydd yn adeiladu tai'n unig, ond hefyd yn adeiladu cymuned gydlynus a chynhwysol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dechreuodd y gwaith datblygu tai estynedig yn ardal Pontprennau / Pentref Llaneirwg / Llysfaen gan gynnwys mwy na 5000 o dai teuluol, yn 2016.

Pryd bydd y Cyngor yn agor yr ysgol uwchradd a addawyd yng Nghynllun Datblygu Lleol (ED 009.6) i ateb y galw?

Ateb – y Cynghorydd Merry

Mae disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Pontprennau'n cwympo yn nalgylchoedd Ysgol Uwchradd Llanisien ac Ysgol Glantaf. Byddai disgyblion sy'n byw ar y safleoedd datblygu tai newydd ac arfaethedig mewn ardaloedd cyfagos yn nalgylchoedd Ysgol Uwchradd Llanisien neu Ysgol Uwchradd y Dwyrain, ac Ysgol Glantaf neu Ysgol Bro Edern.

Roedd pob un o’r ysgolion rwyf wedi’u rhestru wedi gallu derbyn pob cais prydlon yn eu dalgylch eleni.  Yn 2022, bydd y disgyblion yn nalgylch Ysgol Gynradd Pontprennau  yn dal yn gallu mynd i'r ysgolion dalgylch hwn.

Disgwylir y caiff cais cynllunio ar gyfer y safle datblygu tai yn y dyfodol, lle y byddai ysgol gynradd newydd, ei gyflwyno gan ddatblygwyr nes ymlaen eleni. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda datblygwyr ac yn monitro'r gyfradd adeiladu a'r rhagamcan o'r elw o'r tai newydd a'r tai arfaethedig yn ogystal â phatrymau o ran ceisiadau i ysgolion cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg, a darpariaeth grefyddol, cynradd ac uwchradd.

Dygir cynigion dros dro priodol ymlaen mewn da bryd i sicrhau bod digon o leoedd Saesneg a Chymraeg ar gyfer tai presennol a thai newydd.

Hefyd, dygir ysgol uwchradd ymlaen ar gyfer yr ardaloedd hynny lle mae nifer y disgyblion lleol yn ddigonol i gynnal safonau addysgol uchaf y mae Caerdydd yn eu mynnu.

Cwestiwn Ategol – Dr. Phillips

Diolch yn fawr iawn am eich ateb a’ch ateb manwl.  Cefnogwyd y cwestiwn gan ddeiseb sy’n dangos faint o ddiddordeb sydd yn hyn gan rieni a thrigolion.

Mae fy nghwestiwn ategol yn ymwneud ag amser a dyddiadau. Rydych chi’n sôn am 'disgwyl yn hwyrach yn y flwyddyn' a sonioch hefyd am 'mewn da bryd'.  Pryd y dywedir wrth drigolion Gogledd Caerdydd, a sut, achos mae llawer o bryderon o gofio mai Ysgol Gynradd Pontprennau yw'r ysgol gynradd sydd wedi'i gordanysgrifio fwyach yng Nghaerdydd?

Ateb – y Cynghorydd Merry

Rwy’n deall yn llawn pryder y rhieni, ond yn anffodus, pe bai mwy o ddyddiadau penodol gennyf, byddwn yn eu rhoi.  Yn ôl yr hyn a ddwedwyd wrthyf, mae’n fwyaf tebygol y caiff yr ysgol uwchradd hon ei sefydlu ar ôl 2025 ond dyw honno ddim yn ddyddiad penodol.  Yr anhawster sydd gennym yw o ran adeiladau ysgolion sy’n cael eu hadeiladu dan drefniadau A106, rydyn ni i ryw raddau’n rhwym wrth y datblygwyr a’r galw a ragwelir am leoedd ysgol.  Dydyn ni ddim yn adeiladu ysgolion yn uniongyrchol ond yn darparu’r cyfalaf, felly mae hynny’n ei gwneud yn anodd rhoi dyddiad penodol i chi.

Gwnaf yn siŵr fy mod i’n rhoi’r diweddaraf i’r Aelodau Lleol wrth i’r cynlluniau ddod yn gliriach.

21 : DEISEBAU

Cafwyd y Deisebau canlynol gan y Cyngor Llawn:

| Cynghorydd | Nifer y llofnodion | Pwnc |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Jacobsen | 2142 | Gofyn i'r Cyngor wneud gwaith trwsio a gwelliannau i Lyn Pentwyn ym Mharc Coed y Nant. |
| Cynghorwyr Cowan, Owen a Robson | 304 | Galw ar y Cyngor i flaenoriaethu cynllun i fynd i'r afael â diffyg cyfleusterau croesfan i gerddwyr pedair ffordd yn Pantbach Road/Tŷ wern Road/Tŷ'n y Parc Road (monico) Crossroads, ac i roi mesurau ar waith i atal ceir rhag mynd ar y palmant gyda chynllun i'w roi ar waith erbyn diwedd 2018. |
| Y Cynghorydd Carter | 163 | Galw ar y Cyngor i atal elusennau lleol rhag cael eu troi allan o neuadd Chwaraeon Llanedern. |
| Y Cynghorydd Bale | 290 | Gofyn i'r Cyngor ystyried y ddeiseb atal gwasanaeth X8 Grŵp NAT rhag teithio drwy Launcelot Crescent a Camelot Way. |

22 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Rhoddodd yr Arglwydd Faer wybod i'r Cyngor y bu farw Mrs Thora Lewis, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg, ddiwedd Mai. Yn ddiweddar, roedd hi wedi ymuno â'r Pwyllgor ar ôl gyrfa hir a llawn fel athrawes Ffrangeg. Treuliodd hi lawer o'i bywyd yn Ysgol Uwchradd Llanrhymni lle y daeth yn Ddirprwy Bennaeth. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg i'r teulu i fynegi cydymdeimlad.

Llongyfarchodd yr Arglwydd Faer bob un o'r dinasyddion o Gaerdydd a gafodd eu hanrhydeddu yn Rhestr Anrhydeddu Pen-blwydd y Frenhines.

| Urdd | Anrhydedd | Wedi'i gyflwyno i | Cyflawniad |
|---|---|---|---|
| Cadlywyddion Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | CBE | Mr Kenneth Martin FOLLET | Awdur a anwyd yng Nghaerdydd am wasanaethau i Lenyddiaeth ac elusennau. |
| Cadlywyddion Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | CBE | Yr Athro Graham HUTCHINGS FRS | Cyfarwyddwr Sefydliad Catalysis Caerdydd am wasanaethau i Gemeg ac Arloesi. |

| Urdd | Anrhydedd | Wedi'i gyflwyno i | Cyflawniad |
|---|---|---|---|
| Cadlywyddion Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | CBE | Yr Athro Billie HUNTER | Athro Bydwreigiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Am wasanaethau i Fydwreigiaeth ac i Addysg Bydwreigiaeth yn y DU ac Ewrop. |
| Cadlywyddion Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | CBE | Mr Huw Vaughan THOMAS | Archwilydd Cyffredinol Cymru. Am wasanaethau i Archwilio Cyhoeddus ac Atebolrwydd yng Nghymru. |
| Cadlywyddion Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | CBE | Mr Alun Howard TUCKER | Aelod Diweddar o Tribiwnlys Troseddol Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig at Am wasanaethau i Gyfiawnder Rhyngwladol. |
| Swyddogion Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | OBE | Mrs Marlize PALMER | Swyddog Cofnodion Adrannol Llywodraeth Cymru. Am wasanaethau rheoli gwybodaeth. |
| Swyddogion Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | OBE | Dr Stephen THOMAS | Pennaeth Medetec, Ymgynghorydd Dyfais Meddygol Annibynnol (Rhwymau clwyf) ac Ysgrifennydd Meddygol. Am wasanaethau i'r GIG. |
| Aelodau Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | MBE | Dr Richard Ian DEWAR | Meddyg Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Am wasanaethau i'r GIG, yn enwedig i Gleifion Strôc. |
| Aelodau Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | MBE | Professor Haley Louise GOMEZ | Pennaeth allgymorth ac Ymgysylltu, Ysgol Ffiseg ac Astronomeg, Prifysgol Caerdydd Am wasanaethau i Astroffiseg, Astronomeg, a Gweithgareddau Allgymorth. |
| Aelodau Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | MBE | Mrs Ruth Helen JACKSON | Pennaeth Ysgol Gynradd Kitchener Caerdydd. Am wasanaethau Addysg. |
| Aelodau Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | MBE | Ms Avril LEWIS | Rheolwr Gyfarwyddwr, ESTnet, ac Aelod o Banel Sector Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Llywodraeth Cymru. Am wasanaethau i'r diwydiant Technoleg yng Nghymru. |
| Medalydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | BEM | Mrs Carol May COLEMAN | Am wasanaethau mewn Theatr Amatur ac i gymuned Rhiwbeina. |
| Medalydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | BEM | Mrs Eluned Margaret Ramsey Clifton- | Hyfforddwr ac Asesydd Cymorth Cyntaf, Ambiwlans Sant Ioan Cymru. Am wasanaeth gwirfoddol i Hyfforddi Cymorth Cyntaf. (Caerdydd) |

| **Urdd** | **Anrhydedd** | **Wedi'i gyflwyno i** | **Cyflawniad** |
|---|---|---|---|
| | | Davies | |
| Medalydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | BEM | Robert John Lawrence | Am wasanaeth gwleidyddol a chyhoeddus |
| Medalydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | BEM | Ms Yvette Suzanne DUVAL | Rheolwr Iechyd Meddwl pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, Diverse Cymru. Am wasanaethau i gymuned y bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. |
| Medalydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig | BEM | Dr Hasmukhlal Vadilal SHAH | Am wasanaethau i'r gymuned Hindŵaidd yng Nghaerdydd. |

| Medal Gwasanaeth Tân y Frenhines – Cymru a Lloegr | |
|---|---|
| Huw Dennis JAKEWAY<br>Prif Swyddog Tân<br>Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | Am Wasanaethau Hyglod i'r Gwasanaeth Tân ac Achub |
| **Medal Heddlu'r Frenhines – Cymru a Lloegr** | |
| Prif Uwch-arolygydd Sally Ann BURKE | Am Wasansaethau Hyglod i Heddlu De Cymru |
| Mr. Paul Francis Dominic HURLEY, Ditectif Prif Uwch-arolygydd tan yn ddiweddar, | Am Wasansaethau Hyglod i Heddlu De Cymru |
| Sarsiant Lindsey SWEENEY | Am Wasansaethau Hyglod i Heddlu De Cymru |
| **Medal Ambiwlans y Frenhines – Cymru a Lloegr** | |
| Jason Frederick COLLINS, Rheolwr Cyllid, | Am Wasanaethau Hyglod i Wasanaeth Ambiwlans Cymru |

Llongyfarchodd yr Arglwydd Faer bob aelod o staff a gydnabuwyd mewn mentrau a phrojectau, ac a gynhwyswyd ynddyn nhw, fel y'i nodwyd yn y brîff Cydnabyddiaeth a Gwobrau i'r Cyngor.

Roedd yr Arglwydd Faer yn falch o fod wedi lansio ymgyrch codi arian yr Arglwydd Faer gydag Ymddiriedolaeth Arch Noah ym mis Mai ac ymrwymodd y byddai yn ei blwyddyn yn y swydd yn codi arian a oedd mawr ei angen at Apêl Tiny Lives ac at offer anadlu hollbwysig i fabanod difrifol wael.

Cynlluniwyd nifer o ddigwyddiadau dros y misoedd nesaf gan gynnwys bore coffi ar 6 Gorffennaf; Gêm Criced ar 26 Gorffennaf a chinio i godi arian ar 29 Gorffennaf. Roedd yr Arglwydd Faer yn ddiolchgar am gefnogaeth y Cynghorwyr

Rhannwyd rhagor o fanylion yn ystod mis cyntaf yr Arglwydd Faer yn y swydd er gwybodaeth i Aelodau.

23 : YMGYNGHORIAD – PAPUR GWYRDD TRAFNIDIAETH AC AER GLÂN CAERDYDD

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth Bapur Gwyrdd ar 'Drafnidiaeth ac Aer Glân Caerdydd' a gwnaeth ddatganiad yn unol â rheol 21 Gweithdrefn y Cyngor gwahoddodd y Cynghorwyr Michael, Elsmore a Patel i gyfrannu at gyflwyno'r Papur Gwyrdd. Amlinellodd yr Aelod Cabinet y broses ymgynghori a'r gweithgareddau ymgysylltu i annog a chasglu adborth gan gymaint o wahanol ddinasyddion o Gaerdydd â phosibl yn ogystal ag Aelodau Etholedig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Michael at y mentrau Aer Glân gan gynnwys darparu gorsafoedd Gwefru Cerbydau Trydan; gweithio i annog pob cerbyd fflyd a thacsi trydan; a mabwysiadu ehangach o'r Strategaeth Allyriadau Isel ar gyfer cerbydau Cyngor gan gyrff cyhoeddus eraill.

Canolbwyntiodd y Cynghorydd Elsmore ar Aer Glân a Iechyd Cyhoeddus' Cynllun Lles y Cyngor a darparu opsiynau teithio llesol ar gyfer pob un o ddinasyddion y ddinas.
Cyfeiriodd y Cynghorydd Patel at waith y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol ar Wella Ansawdd Aer yng Nghaerdydd a'i brif argymhelliad o ran Iechyd y Cyhoedd; parthau allyriadau isel; seilwaith tanwydd cynaliadwy a lonydd seiclo a bysus gwell; sbarduno newid mewn moddau teithio a chyflwyno parthau 20mya.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gyfraniadau gan y Llefarwyr Grŵp a'r Aelod Annibynnol a fyddai'n cael eu casglu'n rhan o'r broses ymgynghori sydd yn dal i fod yn agored i Gynghorwyr Unigol a grwpiau tan 1 Gorffennaf 2018.

Mae Aelodau'n croesawu'r cyfle i fynd i'r afael â materion a godwyd yn y Papur Gwyrdd a'r ymdrechion sylweddol a wnaethpwyd i ymgysylltu â dinasyddion a grwpiau rhanddeiliaid. Gwnaeth Llefarwyr Grŵp sylwi ar yr angen i fynd i'r afael â materion o ran aer glân a lleihau allyriadau niweidiol; pwysigrwydd opsiynau teithio cynaliadwy a gwelliannau i seilwaith, dyluniad dinesig da a chreu cymunedau lleol bywiog. Pwysleision nhw bwysigrwydd gweithio gyda busnesau i adfywio canolfannau siopa lleol yn enwedig ar adeg y mae arferion siopa yn newid eto gyda chynnydd y defnydd o wasanaethau ar-lein.

Codwyd hefyd ail-alinio gwasanaethau bws; cyflwyno tocynnau integredig; symudiad tuag at fflyd(au) bws dim carbon a gwelliannau i'r dechnoleg i wella llif y traffig a diweddaru'r system goleuadau traffig. Atgyfnerthodd Aelodau'r Gofynion am gyfleuster Parcio a Theithio yng ngogledd y ddinas ar bwys Cyffordd 32 i leihau tagfeydd ar amseroedd brig i mewn ac allan o'r ddinas, a gellid gwneud mwy o waith gyda chyrff cyhoeddus a phreifat i annog cyflogeion i rannu ceir neu ddefnyddio Parcio a Theithio yn lle gyrru a pharcio yn ardal y Sir.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd mynediad cyfartal at ganol y ddinas a gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau, sydd ar adegau'n anodd i bobl mewn cadeiriau olwyn, yn enwedig pan fo bysus yn llawn ac mae angen rhoi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar waith.

Diolchodd yr Arglwydd Faer i'r Aelodau am eu cyfraniadau fyddai'n cael eu cofnodi'n llawn a'u cyflwyno'n rhan o'r broses ymgynghori.

24 : SAFONAU'R GYMRAEG: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017 - 18

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Huw Thomas, Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2017-18 a fanylodd ar gyflawniadau a chynnydd y Cyngor o ran darparu strategaeth Caerdydd Ddwyieithog. Mae gan Gaerdydd y nifer pedwerydd uchaf o Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ar ôl Sir Gaerfyrddin, Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae'r Cyngor yn ymdrechu i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o'i wasanaethau gan weithio gyda phartneriaid sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru i ychwanegu at y gwaith o ddatblygu a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae Safonau'r Gymraeg yn elfen bwysig o sicrhau cydymffurfiaeth gyson a hwythau yw'r ffordd orau o hyrwyddo'r iaith o hyd. Roedd yn bleser gan yr Arweinydd adrodd ar gynnydd yn nifer y staff dwyieithog yn y Cyngor.

Yn ogystal â hynny, roedd Caerdydd unwaith eto yn croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol ar ddechrau Awst, digwyddiad unigryw ac agored i bawb.

Eiliodd y Cynghorydd Owen Jones, ac yntau'n Gadeirydd ar Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyieithog, yr adroddiad ac roedd yn hapus i gydnabod y gwelliannau a'r cynnydd ac ymrwymiad y Cyngor i gefnogi'r Gymraeg yn y Ddinas. Cydnabu fod dal meysydd i'w gwella.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gyfraniadau a mynegodd Aelodau gefnogaeth i waith y Cyngor a'i bartneriaid; yr ymdrechion codi arian a wnaethpwyd gan gymunedau yng Nghaerdydd at yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd; uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050; darparu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio Cymraeg yn y gweithle; pwysigrwydd y Gymraeg yn niwylliant a threftadaeth Caerdydd a hithau'n Brifddinas. Gwnaethpwyd sylw am nifer y safonau i'w gweithredu a'r fiwrocratiaeth sydd ynghlwm. Cydnabuwyd budd cymdeithasol a diwylliannol y Gymraeg i ddinasyddion.

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2017-18 yn unol â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

25 : AILBENODI AELOD ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

Cafodd y Cyngor wybod am y lle gwag a oedd wedi codi ar y Pwyllgor Safonau a Moeseg a gofynnon nhw am gymeradwyo trefniadau i lenwi'r swydd.

Cynigiodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Huw Thomas, yr argymhelliad a gafwyd gan aelodau'r Pwyllgor Safonau a Moeseg y cyfarfod diwethaf ar 13 Mehefin 2018 a eiliwyd gan y Cynghorydd Stephen Cunnah, aelod o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo ailbenodi Hollie Edwards-Davies i'r rôl Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg ar gyfer tymor pedair blynedd arall o 22 Mehefin 2018.

## 26 : PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL ADNODDAU A SWYDDOG ADRAN 151

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo hysbyseb gyhoeddus a thâl cydnabyddiaeth i'r swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yn sgil ymddeoliad Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau presennol ym mis Hydref 2018.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Weaver, gynnig yn unol â'r strwythur uwch reoli a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2017 am recriwtio

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer sylwadau ar yr adroddiad. Cydnabuwyd y cynnig newydd a chafodd ei groesawu ar y cyfan. Gofynnwyd am esboniad am dalu ffioedd y Swyddog Canlyniadau a chadarnhawyd nad oedd dyletswyddau'r Swyddog Canlyniadau yn ganolog i rôl Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a byddai rhoi dyletswyddau'r Swyddog Canlyniadau yn cael ei wneud mewn adroddiad arall. Pwysleisiodd Aelodau bwysigrwydd Pontio a chynllun olyniaeth ar gyfer y newid i osgoi colli gwybodaeth gorfforaethol.

Mynegodd Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydwyr eu gwrthwynebiad i'r lefel cyflogau a gynigiwyd a gofynnodd i bleidlais ar wahân gael ei chymryd ar Argymhelliad 2. Gofynnodd yr Arglwydd Faer i gymryd y bleidlais.

Cymerwyd pleidlais ar Argymhelliad 1 a 3. ENILLWYD y bleidlais.

Cymerwyd pleidlais ar Argymhelliad 2. ENILLWYD y bleidlais

PENDERFYNWYD –

1. y cymeradwywyd hysbysu'n gyhoeddus y swydd fel Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ar sail y dyletswyddau, proffil rôl a thelerau ac amodau presennol;

2. y cytunwyd ar dâl y swydd fel Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yn seiliedig ar cyflog yn y fan a'r lle o £132,613 y flwyddyn yn unol â Datganiad Polisi Cyflog 2018/19 y - Cyngor;
3. 
4. y cytunwyd bod cyfrifoldeb dros benodi ymgeisydd addas i swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yn cael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Penodiadau.

## 27 : CRONFA BENSIWN CAERDYDD A BRO MORGANNWG - DIWYGIO CYLCH GORCHWYL Y BWRDD PENSIWN LLEOL

*(Roedd yr Arglwydd Faer wedi datgan diddordeb personol ac ariannol yn yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem hon.*

*(Dirprwy Arglwydd Faer, y Cynghorydd McKerlich yn y Gadair)*

Cyngor Caerdydd yw’r awdurdod gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg sy’n rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) Cymru a Lloegr. Yn 2015, sefydlodd y Cyngor y Bwrdd Pensiynau Lleol ar gyfer y Gronfa Bensiwn i gydymffurfio â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a’r Rheoliadau LGPS ond hefyd er mwyn cydnabod bod gan y Cyngor Bwyllgor Pensiynau.

Ceisiodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad gymeradwyaeth o ddiwygiadau i’r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Pensiynau Lleol a oedd yn cynnwys ymestyn cyfnodau swyddi Aelodau’r Bwrdd am flwyddyn arall.

Eilwyd y cynnig gan y Cynghorydd Mackie.

PENDERFYNWYD –

1. y nodwyd bod gan Awdurdod Gweinyddu Caerdydd ar gyfer y Gronfa Bensiwn gyfrifoldeb ffurfio dros y Bwrdd Pensiynau Lleol ac y caiff pob diwygiad heblaw am rhai mân i Gylch Gorchwyl y Bwrdd ei gyflwyno i’w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn;

2. y rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau i wneud unrhyw fân ddiwygiadau a fydd yn ofynnol i Gylch Gorchwyl y Bwrdd, o bryd i’w gilydd;

3. y cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl diwygiedig;

4. y nodwyd bod gweinyddiaeth y Bwrdd, (gan gynnwys penodiadau i’r Bwrdd) yn syrthio o fewn materion y pensiwn gweithredol a ddirprwywyd i’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yng Nghynllun Dirprwyaethau'r Cyngor, yn amodol ar ymgynghori, fel sy’n briodol gyda Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau a Chadeirydd y Bwrdd;

5. y cymeradwyir penodi aelodau’r Bwrdd i gyfnodau swydd estynedig am 12 mis.

## 28 : ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC 2017-2018

*(Yr Arglwydd Faer yn y Gadair)*

Cyflwynodd Cadair Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc, Y Cynghorydd Lee Bridgeman Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor sy’n rhoi manylion ar y gwaith ymchwiliol a chraffu yr ymgymerwyd ag ef gan y Pwyllgor yn 2017-18.

Cymeradwyodd y Cadeirydd y gwaith a’r amser a roddwyd gan Aelodau’r Pwyllgor; Aelodau Cyfetholedig; tystion a rhanddeiliaid i  gyfarfodydd a chyfarfodydd y Tasglu; a’r gefnogaeth werthfawr a ddarperir gan y Prif Swyddog Cymorth Craffu.

Ymatebodd y Gadair i gwestiynau ar yr adroddiad, yn enwedig ar y Gweithlu ar Leoliadau Allan o'r Sir,

## 29 : ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU A GWASANAETHAU OEDOLION 2017-2018

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion, y Cynghorydd McGarry Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor yn rhoi manylion ar eitemau yr ymdriniwyd â nhw gan y Pwyllgor Craffu yn ei Gynllun Gwaith ar gyfer 2017-18

Cymeradwyodd y Cadeirydd y gwaith a'r amser a roddwyd gan Aelodau'r Cabinet; Aelodau'r Pwyllgor; tystion a rhanddeiliaid i gyfarfodydd a chyfarfodydd y Tasglu; a'r gefnogaeth werthfawr a ddarperir gan y Prif Swyddog Cymorth Craffu.

Pwysleisiodd y Cadeirydd rôl bwysig craffu fel cyfaill beirniadol, wrth helpu i arwain polisi, ymgymryd ag ymchwil ac arfarnu canlyniad ymchwil a helpu i edrych ar y polisi pan gaiff ei ffurfio.

## 30 : ADRODDIAD BLYNYDDOL - PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT 2017-2018

Cyflwynodd y Cynghorydd Hill-John, Aelod o'r Pwyllgor Craffu Economi a Diwylliant Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar ran y Cadeirydd nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Darparodd yr adroddiad Blynyddol fanylion am waith y Pwyllgor yn 2017-18.

Diolchodd y Cadeirydd am y gwaith a'r amser a roddwyd gan Aelodau'r Cabinet; Aelodau'r Pwyllgor; tystion a rhanddeiliaid i gyfarfodydd a chyfarfodydd y Tasglu; a'r gefnogaeth werthfawr a ddarperir gan y Prif Swyddog Cymorth Craffu.

Codwyd sylwadau mewn perthynas â'r Ymchwiliad Parciau a Mannau Gwyrdd a'r angen i gynnal a chadw ariannu parciau; cŵn mewn parciau a chadw'r adnoddau am wasanaethau Ceidwaid y Parc. Roedd argymhellion yr adroddiad i gael eu hystyried gan y Cabinet yn fuan.

## 31 : ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD 2017-2018

Cyflwynodd Cadair Pwyllgor Craffu Amgylcheddol, Y Cynghorydd Ramesh Patel Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor sy'n rhoi manylion ar y gwaith ymchwiliol a chraffu yr ymgymerwyd ag ef gan y Pwyllgor yn 2017-18.

Cymeradwyodd y Cadeirydd y gwaith a'r amser a roddwyd gan Aelodau'r Cabinet; Aelodau'r Pwyllgor; tystion allanol a rhanddeiliaid i gyfarfodydd a chyfarfodydd y Tasglu; a'r gefnogaeth werthfawr a ddarperir gan y Prif Swyddog Cymorth Craffu, y Pwyllgor a Chymorth yr Aelodau.
Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr ymdrechion a wnaed i annog ymgysylltiad gan y cyhoedd a chafodd yr holl Bwyllgorau eu Gwe-ddarlledu.

Ymatebodd y Cadeirydd i gwestiynau ar y Cynllun Sgoriau Hylendid Bwyd; materion ynglŷn â thipio anghyfreithlon; a darparu'r cyfleuster Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

## 32 : ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR CRAFFU POLISI, ADOLYGU A PHERFFORMIAD 2017 - 2018

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Adolygu Polisi a Chraffu Perfformiad, y Cynghorydd David Walker adroddiad Blynyddol 2017-2018 ar gyfer Pwyllgor craffu strategol cyffredinol y Cyngor yn edrych ar gynlluniau a pholisïau cymhleth a sut bydd y rhain yn edafu trwy'r Cyngor, a'r canlyniadau o'r polisïau hyn yn ogystal â threiddio'n ddwfn i faterion penodol, er enghraifft mater pwysig absenoldeb oherwydd salwch.

Roedd y Pwyllgor wedi cwblhau dau Ymchwiliad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y model Landlordiaid Corfforaethol gan edrych ar eiddo ac asedau'r Cyngor, gan roi argymhellion ar newid.

Amlinellodd y Cadeirydd bwysigrwydd archwiliad a chanlyniadau'r argymhellion a wnaed ar ôl y craffu.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Cabinet, Aelodau'r Pwyllgor , tystion a chyfranogwyr mewn cyfarfodydd a Thasgluoedd a'r Prif Swyddog Cymorth Craffu am eu gwaith caled a'u diwydrwydd yn y gwaith yr ymgymerwyd ag ef dros y 12 mis diwethaf.

Ymatebodd y Cadeirydd i gwestiwn a gafodd ei dderbyn ar y nifer a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y gwasanaeth craffu a'r gwaith a wnaed yn flynyddol.  Roedd y Cadeirydd yn awyddus bod lefel adnoddau yn symud ymlaen yn cael ei chynnal a'i chadw.

## 33 : DATGANIADAU

Derbyniwyd y datganiadau canlynol hyn:

<u>Datganiad yr Arweiniad– Y Cynghorydd Huw Thomas</u>

Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau ar Ddiwygio Llywodraeth Leol a Ras Cefnfor Volvo.

<u>Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth – Y Cynghorydd Wild</u>

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y diwrnod Heb Geir, Trafnidiaeth i Gymru, y Project Metro a'r Cynllun Nextbike.

<u>Buddsoddi a Datblygu – Y Cynghorydd Goodway</u>

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar Economi Caerdydd a heriau yn y sector manwerthu; Brexit, Ystadau Sirol a Gwasanaethau Trafnidiaeth Corfforaethol

Diwylliant a Hamdden – Y Cynghorydd Bradbury

Dirprwy arweinydd, Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau – Y Cynghorydd Merry

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant, Archwiliadau Estyn, System Decach i fyfyrwyr a Thlodi Mislif.

Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad – Y Cynghorydd Weaver

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar Fis Pride LHDT a chyflogwyr cynhwysol, App Llywodraeth Caerdydd, a galwadau ac amserau Cysylltu â Chaerdydd argaeledd Twitter y Cyngor.

Tai a Chymunedau – Y Cynghorydd Thorne

Nodwyd bod y Datganiad hwn wedi'i hepgor o'r pecyn agenda a gyhoeddwyd a châi ei gylchredeg i bob Aelod ar ddiwedd y cyfarfod. Croesawodd yr aelod Cabinet unrhyw gwestiynau ar ei datganiad trwy e-bost.

Strydoedd Glân, Ailgylchu a’r Amgylchedd – Y Cynghorydd Michael

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i’r cwestiynau ar Dipio Anghyfreithlon, Hysbysebiadau Cosb Benodedig

Plant a Theuluoedd - Councillor Hinchey

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar Wasanaethau Gofal Maethu a dymuniadau pobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl a'r Ganolfan Adnoddau i'r Glasoed.

Gofal Cymdeithasol. Iechyd a Lles – Y Cynghorydd Elsmore

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a strategaeth PREVENT, a phwysigrwydd cydweithio a defnydd iaith cadarnhaol a ddefnyddir yn y strategaeth, Wythnos Gweithredu ar Demensia a’r Gwasanaeth Pryd ar Glud.

34 : CYNNIG 1

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod hysbysiad o gynnig, wedi’i gynnig gan y Cynghorydd Keith Jones a’i gefnogi gan y Cynghorydd Bridgeman, wedi'i dderbyn i’w ystyried a’i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod. Derbyniwyd dau ddiwygiad i’r cynnig.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Jones i gyflwyno’r cynnig fel a ganlyn:

Mae’r Cyngor hwn yn cydnabod llwyddiannau ardderchog timau chwaraeon y Ddinas eleni ac yn llongyfarch:

1. Clwb Pêl-droes Dinas Caerdydd ar godi i Gynghrair y Pencampwyr;
2. Gleision Caerdydd ar lwyddo i ennill rown derfynol Cwpan Her Ewrop;

3. Cardiff Devils ar ennill y Gynghrair Elitaidd a Gemau Ailgyfle'r Gynghrair Elitaidd.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi pwysigrwydd Clybiau Chwaraeon Cymunedol a llwyddiant nifer o'n timau lleol ledled y Ddinas, yn ogystal â'u rôl wrth annog cydlyniad cymunedol a gwella Iechyd a Llesiant y Ddinas.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r pwysigrwydd y mae Cyngor Caerdydd yn ei roi ar ddenu mwy o ferched i chwaraeon, sy'n cynnwys digwyddiad Merched Ynghyd Chwaraeon Caerdydd a fydd yn gweld 300 o ferched ysgol gynradd a 300 o ferched ysgol uwchradd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Merched yn 2019.

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r gwaith y mae tîm Datblygu Chwaraeon y Cyngor yn ei wneud mewn partneriaeth â Phrifysgol Fetropolitanaidd Caerdydd a'r penderfyniad yn 2012/13 i ganiatáu i blant dan 16 oed ddefnyddio ein cyfleusterau chwaraeon mewn parciau am ddim.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y buddsoddiad y mae'r Cyngor wedi'i wneud wrth wella cyfleusterau chwaraeon, gan gynnwys gwella ystafelloedd newid a gosod caeau chwarae 3G.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu parhau i gynnig chwaraeon i bob plentyn o bob cefndir a chaniatáu i blant dan 16 oed ddefnyddio cyfleusterau mewn parciau am ddim ar gyfer chwaraeon a drefnir ac hefyd i weithio gyda phob un o'n clybiau Elitaidd i barhau â'r gwaith o adfywio chwaraeon yn ein dinas.

Cafodd y Cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Bridgeman

Ystyriodd yr Arglwydd Faer bob cynnig yn eu tro.

Diwygiad 1: Wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Mike Jones-Pritchard a'i eilio gan y Cynghorydd Jayne Cowan

Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

Yn llinell un, ychwanegu *"pob"* ar ôl cyflawniadau a dileu "*eleni"*

Ychwanegu Pwynt 4: *"Llawer o dimoedd amatur y Ddinas gan gynnwys AAC Caerdydd a gyflawnodd hefyd ddyrchafiad i'r Lefel Uchaf Cynghrair Athletau Prydain y tymor diwethaf".*

Yn y paragraff olaf ychwanegu, ar ôl chwaraeon a drefnir "*a sicrhau bod y mannau chwaraeon yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd"*

Byddai'r Cynnig ar ôl ei Ddiwygio fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod llwyddiannau ardderchog timau chwaraeon y Ddinas eleni ac yn llongyfarch:

1. Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd ar godi i Gynghrair y Pencampwyr;
2. Gleision Caerdydd ar lwyddo i ennill rown derfynol Cwpan Her Ewrop;
3. Cardiff Devils ar ennill y Gynghrair Elitaidd a Gemau Ailgyfle'r Gynghrair Elitaidd.
4. Llawer o dimoedd amatur y Ddinas gan gynnwys AAC Caerdydd a gyflawnodd hefyd ddyrchafiad i'r Lefel Uchaf Cynghrair Athletau Prydain y tymor diwethaf.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi pwysigrwydd Clybiau Chwaraeon Cymunedol a llwyddiant nifer o'n timau lleol ledled y Ddinas, yn ogystal â'u rôl wrth annog cydlyniad cymunedol a gwella Iechyd a Llesiant y Ddinas.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r pwysigrwydd y mae Cyngor Caerdydd yn ei roi ar ddenu mwy o ferched i chwaraeon, sy'n cynnwys digwyddiad Merched Ynghyd Chwaraeon Caerdydd a fydd yn gweld 300 o ferched ysgol gynradd a 300 o ferched ysgol uwchradd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Merched yn 2019.

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r gwaith y mae tîm Datblygu Chwaraeon y Cyngor yn ei wneud mewn partneriaeth â Phrifysgol Fetropolitanaidd Caerdydd a'r penderfyniad yn 2012/13 i ganiatáu i blant dan 16 oed ddefnyddio ein cyfleusterau chwaraeon mewn parciau am ddim.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y buddsoddiad y mae'r Cyngor wedi'i wneud wrth wella cyfleusterau chwaraeon, gan gynnwys gwella ystafelloedd newid a gosod caeau chwarae 3G.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu parhau i gynnig chwaraeon i bob plentyn o bob cefndir a chaniatáu i blant dan 16 oed ddefnyddio cyfleusterau mewn parciau am ddim ar gyfer chwaraeon a drefnir ac hefyd i weithio gyda phob un o'n clybiau Elitaidd i barhau â'r gwaith o adfywio chwaraeon yn ein dinas.

Cynigiwyd Newid 2 gan y Cynghorydd Joe Boyle a'i eilio gan y Cynghorydd Emma Sandrey

Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

Ychwanegu Pwynt 4-4. *Menywod Metropolitan Caerdydd am godi teitl Cynghrair Uwch Menywod Cymru, gan olygu y byddant yn cynrychioli Cymru yng Nghynghrair Pencampwyr Menywod UEFA yn y tymor sydd i ddod.*

Ail baragraff – ychwanegu brawddeg ychwanegol ar y diwedd "*Serch hyn mae'r Cyngor yn edifarhau'r enghreifftiau hynny pan fo timau a grwpiau chwaraeon cymunedol wedi cael eu troi allan o gyfleusterau'r Cyngor".*

Trydydd paragraff ar diwedd y frawddeg, tynnwch yr atalnod llaw a rho atalnod yn ei le, gan ychwanegu'r canlynol: - *"ond mae pryderon bod gofyniad gan Better Leisure i bobl dros 16 ar gyfer sesiynau nofio i ferched yn rhwystro merched ifanc a'u mamau*

*rhag cymryd rhan gyda'i gilydd mewn camp maen nhw'n ei mwynhau ac yn teimlo'n gyfforddus gyda hi".*

Pumed paragraff at ddiwedd y frawddeg, dileu'r atalnod llawn a rhoi atalnod gan ychwanegu'r canlynol – "*wrth edifarhau am golli'r cyfleusterau megis lawntiau bowlio ac enghreifftiau pan fydd ansawdd gwael caeau chwaraeon wedi gorfodi timau lleol i adleoli".*

Yn y chweched paragraff ar ôl y geiriau "*Mae'r Cyngor hwn"* ychwanegu'r geiriau canlynol "*hefyd yn nodi nad yw trosglwyddo cynnal canolfannau hamdden i gwmni preifat wedi darparu'r holl fuddion a addawyd i ni a"*

Byddai'r cynnig diwygiedig fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod llwyddiannau ardderchog timau chwaraeon y Ddinas eleni ac yn llongyfarch:

1. Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd ar godi i Gynghrair y Pencampwyr;
2. Gleision Caerdydd ar lwyddo i ennill rownd derfynol Cwpan Her Ewrop Terfynol;
3. Cardiff Devils ar ennill y Gynghrair Elitaidd a Gemau Ailgyfle'r Gynghrair Elitaidd.
4. Menywod Metropolitan Caerdydd am godi teitl Cynghrair Pencampwyr Menywod Cymru, sy'n golygu y byddant yn cynrychioli Cymru yng Nghynghrair Pencampwyr Menywod UEFA yn y tymor sydd i ddod.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi pwysigrwydd Clybiau Chwaraeon Cymunedol a llwyddiant nifer o'n timau lleol ledled y Ddinas, yn ogystal â'u rôl wrth annog cydlyniad cymunedol a gwella Iechyd a Llesiant y Ddinas. Serch hyn mae'r Cyngor yn edifarhau'r enghreifftiau hynny pan fo timau a grwpiau chwaraeon cymunedol wedi cael eu troi allan o gyfleusterau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r pwysigrwydd y mae Cyngor Caerdydd yn ei roi ar ddenu mwy o ferched i chwaraeon, sy'n cynnwys digwyddiad Merched Ynghyd Chwaraeon Caerdydd a fydd yn gweld 300 o ferched ysgol gynradd a 300 o ferched ysgol uwchradd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Merched yn 2019, ond mae ganddo bryderon y bydd gofyniad Better Leisure i fenywod fod dros 16 i gymryd rhan mewn sesiynau nofio i ferched yn rhwystro merched ifanc a'u mamau rhag cymryd rhan gyda'i gilydd mewn camp maent yn ei mwynhau ac yn teimlo'n gyfforddus gyda hi.

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r gwaith y mae tîm Datblygu Chwaraeon y Cyngor yn ei wneud mewn partneriaeth â Phrifysgol Fetropolitanaidd Caerdydd a'r penderfyniad yn 2012/13 i ganiatáu i blant dan 16 oed ddefnyddio ein cyfleusterau chwaraeon mewn parciau am ddim.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y buddsoddiad y mae'r Cyngor wedi'i wneud o ran gwella cyfleusterau chwaraeon gan gynnwys gwelliannau i ystafelloedd newid a gosod meysydd 3G, gan edifarhau am golli cyfleusterau megis lawntiau bowlio ac

enghreifftiau lle y mae ansawdd gwael meysydd chwaraeon wedi gorfodi timau lleol i adleoli.

Mae'r Cyngor hwn hefyd yn nodi nad yw trosglwyddo rhedeg canolfannau hamdden i gwmni preifat wedi darparu’r holl fuddion a addawyd i ni ac felly yn penderfynu y dylid parhau i sicrhau bod chwaraeon ar gael ar gyfer plant o bob modd ac y bydd yn parhau i rhoi mynediad am ddim i'n cyfleusterau parciau i bob plentyn o dan 16 oed ar gyfer chwarae a drefnir a gweithio gyda'n holl glybiau Elit er mwyn parhau'r dadeni chwaraeon yn ein dinas.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig.

Ar ddiwedd y drafodaeth gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Keith Jones i grynhoi. Wrth grynhoi, nododd y Cynghorydd Jones ei fod yn derbyn diwygiad 1 fel y cynnig gwreiddiol.

Symudodd yr Arglwydd Faer i’r bleidlais ar Ddigwygiad 2. COLLWYD y bleidlais ar Ddiwygiad 2.

PASIODD y bleidlais ar y Cynnig Gwreiddiol fel a ganlyn: -

Mae’r Cyngor hwn yn cydnabod llwyddiannau ardderchog timau chwaraeon y Ddinas eleni ac yn llongyfarch:

1. Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd ar godi i Gynghrair y Pencampwyr;
2. Gleision Caerdydd ar lwyddo i ennill rown derfynol Cwpan Her Ewrop;
3. Cardiff Devils ar ennill y Gynghrair Elitaidd a Gemau Ailgyfle'r Gynghrair Elitaidd.
4. Llawer o dimoedd amatur y Ddinas gan gynnwys AAC Caerdydd a gyflawnodd hefyd ddyrchafiad i’r Lefel Uchaf Cynghrair Athletau Prydain y tymor diwethaf.

Mae’r Cyngor hwn yn nodi pwysigrwydd Clybiau Chwaraeon Cymunedol a llwyddiant nifer o’n timau lleol ledled y Ddinas, yn ogystal â’u rôl wrth annog cydlyniad cymunedol a gwella Iechyd a Llesiant y Ddinas.

Mae’r Cyngor hefyd yn nodi’r pwysigrwydd y mae Cyngor Caerdydd yn ei roi ar ddenu mwy o ferched i chwaraeon, sy’n cynnwys digwyddiad Merched Ynghyd Chwaraeon Caerdydd a fydd yn gweld 300 o ferched ysgol gynradd a 300 o ferched ysgol uwchradd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Merched yn 2019.

Mae’r Cyngor yn cefnogi’r gwaith y mae tîm Datblygu Chwaraeon y Cyngor yn ei wneud mewn partneriaeth â Phrifysgol Fetropolitanaidd Caerdydd a'r penderfyniad yn 2012/13 i ganiatáu i blant dan 16 oed ddefnyddio ein cyfleusterau chwaraeon mewn parciau am ddim.

Mae’r Cyngor yn cydnabod y buddsoddiad y mae’r Cyngor wedi’i wneud wrth wella cyfleusterau chwaraeon, gan gynnwys gwella ystafelloedd newid a gosod caeau chwarae 3G.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu parhau i gynnig chwaraeon i bob plentyn o bob cefndir a chaniatáu i blant dan 16 oed ddefnyddio cyfleusterau mewn parciau am ddim ar gyfer chwaraeon a drefnir ac hefyd i weithio gyda phob un o'n clybiau Elitaidd i barhau â'r gwaith o adfywio chwaraeon yn ein dinas.

35 : CYNNIG 2

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod hysbysiad o gynnig, wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Jones-Pritchard a'i gefnogi gan y Cynghorydd Williams, wedi'i dderbyn i'w ystyried a'i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod. Derbyniwyd un diwygiad i'r cynnig.

Rhoddodd yr Arglwydd Faer gyfle i'r Cynghorydd Jones-Pritchard gyflwyno'r cynnig fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor yn cydnabod y camau cadarnhaol a nodwyd yn nogfen Uchelgais Prifddinas y Cyngor i sicrhau bod pob plentyn yng Nghaerdydd yn mynychu ysgol dda neu ardderchog, a bod tua hanner o'n hysgolion naill ai'n dda neu'n ardderchog. Mae hefyd yn cydnabod gwaith da swyddogion, athrawon, llywodraethwyr ac eraill, sydd ynghlwm wrth addysg yng Nghaerdydd, sydd wedi helpu i wella safonau yn y blynyddoedd diweddar, a'r angen a'r ymdrech parhaus i wella safonau ar bob lefel ac ym mhob maes yng Nghaerdydd.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod Uchelgais Caerdydd yn datgan:

- Y byddwn yn cau'r bwlch o ran cyrhaeddiad plant mewn ysgolion er mwyn peidio â gadael unrhyw blentyn ar ôl
- Bod addysg yn un o'r llwybrau mwyaf sicr allan o dlodi
- Bod addysg yn fusnes i bawb
- Y dylwn buddsoddi mewn uchelgais a cyfleoedd bywyd o oedran cynnar
- Bod rhaid i ni weithio i alinio arian o bob rhan o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector… o amgylch anghenion pob plentyn a theulu yn unigol
- Bod ymyrraeth gynnar yn hollbwysig
- Bod angen i ni ddarparu datrysiadau hirdymor i broblemau cymhleth
- Y bydd gan bob dinesydd y cyfle i gyflawni ei botensial, ac
- Mai'r allwedd i lwyddiant a ffyniant hirdymor dinas yw'r ffordd y mae'n dewis i fuddsoddi mewn uchelgais a chyfleoedd bywyd o oedran cynnar.

Mae'r cynnig hwn yn galw ar y Cabinet i fod hyd yn oed yn fwy uchelgeisiol ac i ymdrin ag angen critigol, nas cyfeiriwyd ato, na'i nodwyd, yn Uchelgais Prifddinas, sef y sefyllfa druenus mewn perthynas â nifer sylweddol o blant, ym mhob rhan o'r ddinas, sy'n ymuno â meithrinfa â lefel isel o sgiliau cymdeithasol, sydd â braidd dim sgiliau hunangymorth neu gofal personol, a nifer ohonynt yn methu defnyddio'r tŷ bach neu ddal cwpan.

Mae'n galw ar y Cyngor i weithio gyda phob gwasanaeth a, chyda sefydliadau eraill, i ddatblygu, a rhoi ar waith, menter i alluogi'r rheiny a gofalwyr plant cyn oed ysgol i fanteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg, neu ddarpariaeth debyg, ym mhob ysgol gynradd yng Nghaerdydd lle bo'r angen. Gellir manteisio ar ddarpariaeth lle ceir cymorth ac arweiniad ynghylch rhianta cadarnhaol ac ati heb stigma, i'n galluogi i

sicrhau bod pob plentyn yng Nghaerdydd, p'un a ydynt yn byw mewn ardal ddifreintiedig neu beidio, neu y mae eu rhieni neu eu gofalwyr angen cymorth, yn cael cyfle i ddechrau yn y feithrinfa ar y lefel a'r cam datblygu a ddisgwylir.

Dywedodd y Cynghorydd Jones-Pritchard wrth roi'r cynnig, wedi trafodaethau yn ystod seibiant y Cyngor, y byddai dros y mis nesaf yn gweithio gyda'r grŵp Llafur ar gynnig cyfansawdd i ddod ag ef yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

Eiliwyd yr Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorydd Joel Williams.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Lister i gynnig y diwygiad a dywedodd e fod yn dymuno tynnu'r diwygiad yn ôl gyda chydsyniad y cyfarfod er mwyn rhoi amser i weithio gyda grŵp yr wrthblaid ar gynnig cyfansawdd i ddod ag e yn ôl i'r Cyngor y mis nesaf.

Eiliodd y Cynghorydd Lent dynnu'r diwygiad yn ôl.

Yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn y Cyngor 22 (w) (iv) rhoddwyd cyfle i'r Aelod Cabinet ymateb i'r cynnig ar ran y Cabinet.

Ceisiodd yr Arglwydd Faer gymeradwyaeth y Cyngor i'r cynnig i ohirio'r bleidlais ar y Cynnig er mwyn galluogi rhagor o benderfyniadau rhwng cynigwyr ac eilwyr y cynnig a'r Aelod Cabinet blaen ar gynnig cyfansawdd i ddod ag ef gerbron y Cyngor ar 19 Gorffennaf 2018.

PASIWYD GOHIRIO'R cynnig.

36 : CWESTIYNAU LLAFAR

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Robson*

Beth rhagor allai gael ei wneud i leihau ôl troed Carbon Caerdydd?

Ateb – *Y Cynghorydd Michael*

Mae ffigyrau Llywodraeth Leol yn dangos bod Caerdydd wedi gweld lleihad o 39% o ran allyriadau carbon deuocsid rhwng 2005 a 2015, a olygydd ein bod wedi bwrw ein targed Cyfamod Meiri'r UE 2020 o flaen llaw.

Fodd bynnag, nid oes lle am fod yn hunanfodlon, a dyna pam rydym yn arwain trwy enghraifft er mwyn gyrru allyriadau carbon yn is fel ymateb i dargedau newydd Llywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- cynlluniau effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau'r Cyngor a goleuadau'r stryd;
- projectau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys Cored Radur a phaneli solar ar doeau; a
- gosod dros 7,700 o fesurau effeithlonrwydd ynni a ariannir gan grant yn y Cyngor a chartrefi preifat.

Mae’r Cabinet hefyd wedi cymeradwyo Strategaeth Tanwydd Allyriadau Isel ac achosion busnes ar gyfer Rhwydwaith Gwres Cylch a fferm solar yn Lamby Way, a fydd oll yn gwneud cyfraniad mawr tuag at ein harbedion carbon yn y dyfodol.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Robson*

A fyddwch yn ymrwymo i Gaerdydd yn dod yn Ddinas Garbon Niwtral?

Ateb – *Y Cynghorydd Michael*

Rwy’n credu bod angen i mi ei astudio a gweld yn union beth rydych yn ei olygu cyn i mi ei wneud. Rwy’n cofio bod Llywodraethu Cymru eisiau i ni fod yn Rhydd rhag Carbon erbyn 2030 beth bynnag, felly rydym eisoes ar y llwybr hwnnw.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Berman*

Yng ngoleuni’r heriau economaidd parhaus rydym yn gweld i’r heol fawr (yma yng Nghaerdydd ac ar draws y DU) fel yr amlygwyd yn glir iawn gan y cyhoeddiad diweddar am gau siop House of Fraser y ddinas sydd ar ddod ynghyd â'r bwlch mawr y bydd yn ei adael yng nghynnig manwerthu Caerdydd, pa gynlluniau sydd gennych i newid strategaeth economaidd y cyngor i fabwysiadu ymagwedd arloesol a all ein gadael yn y sefyllfa orau i addasu i heriau o'r fath, a sut byddwch yn ceisio ei gyflawni?

Ymateb - Y *Cynghorydd Goodway*

Rwy’n rhannu pryder y Cynghorydd ynglŷn â’r cyhoeddiad bod y siop House of Fraser yn y dref yn mynd i gau. Gallaf sicrhau i’r cynghorydd fod y Cyngor, ynghyd â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac yn Llywodraeth y DU, yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r busnes a pherchennog yr adeilad er mwyn sicrhau cyfleoedd cyflogaeth amgen ar gyfer y staff ac i sicrhau defnydd yn y dyfodol i'r safle.

Rwy’n ymwybodol o’r amgylchedd manwerthu sy’n newid yn barhaus ac sy’n effeithio ar ganol trefi a dinasoedd ledled y DU. Er bod canol dinasoedd wedi esblygu erioed, ac er bod mathau ar fanwerthu wedi newid, bygythiad manwerthwyr ar-lein sy'n darparu pryder mwy strwythurol i'r sector. Fel ymateb, rydym yn gwybod y bydd ar ganol ein dinas angen darparu ystod ehangach o ddefnyddiau a cheisio darparu “yr hyn na all Amazon ei wneud”.

I ryw raddau caiff yr ymateb ei arwain gan fusnesau. Fodd bynnag, fel Cyngor mae gennym rôl mewn goruchwylio datblygiad canol ein dinas er mwyn cadw'r un lefel o gwsmeriaid, gyrru busnes a denu ymwelwyr. Rhan o’r ymateb hwn fydd cynyddu gweithgarwch masnachol cyffredinol yng nghanol y ddinas. Mae gan ailddatblygu'r Sgwâr Canolog, er enghraifft, y potensial i gynnal hyd at 30,000 o swyddi, a fydd yn ei dro yn cefnogi’r sector manwerthu yn y ddinas.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn sicrhau llwyddiant.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Berman*

Mae'r problemau rydym yn eu gweld yn House of Fraser a masnachwyr eraill y stryd fawr a hefyd y colledion swyddi mwy diweddar yn Barclays yn y Ddinas, yn fy marn i, yn arwyddion bod yr economi yma ac mewn mannau eraill yn y DU yn pallu wrth i realiti effaith ein rhuthr tuag at Brexit yn dechrau dod i rym yn fwyfwy. Yn hynny o beth, ac o ystyried eich sylwadau gynnau, a gaf i felly ofyn a ydych yn cytuno â'ch Arweinydd, Y Cynghorydd Thomas, pan ddywedodd wrth y Pwyllgor Adolygu Polisi a Chraffu ar Berfformiad ddoe fod Brexit, a ddweud y gwir yn drychineb, neu a oes rhwyg o fewn rhengoedd gweinyddiaeth Llafur y Cyngor ar y mater hwn?

Ymateb - *Y Cynghorydd Goodway*

Rheol un, mae'r Arweinydd bob amser yn gywir. Rheol dau, nid oes rheol dau. Rheol tri, mae'r Arweinydd bob amser yn gywir. Rwy'n nodi eto, eich obsesiwn gyda Brexit, rwy'n credu bod barn a rennir yn rhengoedd Llafur y bydd heriau anodd i ni eu hwynebu yn y cyfnod ôl-Brexit. Yr hyn rwy'n ei ddweud wrth y Cyngor mai fy nghyfrifoldeb yn y portffolio hwn yw sicrhau bod Caerdydd yn wneud ei gorau glas i ffynnu cyn belled ag y gall er mwyn cwrdd â'r heriau hynny ac os yw'n bosibl sicrhau bod Caerdydd yn ffynnu'n fwy nag unrhyw Ddinas arall yn y DU.

Cwestiwn - *Cynghorydd McGarry*

A all yr Aelod Cabinet ddweud wrthyf beth yw'r meini prawf am flaenoriaethu cynllunio diogelwch ar y ffordd yn y Ddinas?

Ateb – *Y Cynghorydd Wild*

Diolch, Gynghorydd McGarry, caiff y cynlluniau sy'n gynwysedig yn y rhaglen diogelwch ar y ffordd eu blaenoriaethu gan ddefnyddio dull asesu gwrthrychol, sy'n cymryd i ystyriaeth ffactorau megis llif traffig a cherddwyr, gwrthdrawiadau ag anafiadau dros gyfnod o 5 mlynedd, cyflymder traffig a chynllun y safle ayyb. Caiff cyllid o gyllideb diogelwch ar y ffordd cronfa gyfalaf gyffredinol ei ddynodi i gynlluniau ar y sain blaenoriaeth hon.

Cwestiwn Atodol – *Cynghorydd McGarry*

Mae stryd yn ein ward sy'n arwain allan o'r dref, mae mewn llinell syth, mae mewn parth 20 mya ond cynhaliwyd arolygon cyflymder traffig yn y stryd a'r cyflymder cyfartalog a gymerwyd ar yr arolygon cyflymder hynny oedd dros 40 mya a'r cyflymaf oedd 95mya.

Gyda pharthau 20 mya, heblaw y cânt eu gorfodi, ac nid oes gan yr heddlu yr adnoddau i'w gorfodi, a heblaw bod gennych fesurau tawelu traffig yn gynwysedig yn y parthau 20 mya hynny, mae'n anodd iawn cadw'r traffig i lawr i 20 mya. Y cwestiwn yw, bu mesurau tawelu traffig yn yr arfaeth ar gyfer y stryd hon ers 6 blynedd ac rwy'n gofyn pryd bydd yn dod i'r amlwg; Mackintosh Place yw hi.

Roeddwn i eisiau gofyn a allech chi ddweud wrthyf y tu allan i'r Cyngor hwn, pryd caiff y cynllun hwnnw ei wneud o bosibl?

Ateb – *Y Cynghorydd Wild*

Mae rhaglenni ledled Caerdydd a hoffwn i wneud mwy ohonynt fel y gwyddoch, ond o ran yr un hwnnw yn benodol, a gaf i ddysgu ychydig yn fwy amdano, ei ddilyn i wirio bod y pethau rydych wedi siarad amdanynt ar waith a'n bod yn gwneud y penderfyniadau cywir.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Hudson*

Er mwyn cynhyrchu incwm, a all Cyngor Caerdydd geisio ac annog nawdd gan unigolion, grwpiau, sefydliadau a busnesau i gael cynwysyddion plannu, coed, meinciau, goleuadau ayyb.?

Ateb – *Y Cynghorydd Michael*

Ar hyn o bryd rydym yn cynnig cyfle i gwmnïau noddi cylchfan neu fin sbwriel ac i hysbysebu ar gerbydau a baneri goleuadau stryd. Hefyd mae gennym gontract nawdd gydag Admiral ar gyfer gwisgoedd ein tîm Diogelwch ar y Ffordd.

Rydym yn creu tudalen we i'w hychwanegu at y wybodaeth gyfredol am "Hysbysebu ar Eiddo'r Cyngor", a fydd yn hyrwyddo ac yn darparu mwy o fanylion ar gyfleoedd am nawdd sydd ar gael ar gyfer meinciau, cynwysyddion plannu ayyb.

Byddwn hefyd yn hyrwyddo gofod hysbysebu ar fesuryddion parcio. Mewn geiriau eraill byddwn yn hysbysebu ar unrhyw beth cyhyd â'u bod yn talu.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Hudson*

Gyda nawdd, yn enwedig gyda chyflwyniad prysglwyni, coed a chynwysyddion plannu, byddai'n eco-gyfeillgar a byddai'n cofleidio'r fenter aer glân yn y Ddinas. A ydych yn cytuno y bydd yn helpu i amsugno rhywfaint o'r llygredd rydym yn ei brofi ac yn lleihau'r carbon deuocsid ac yn cynhyrchu ocsigen, felly a gaf i ofyn os gwelwch yn dda am eich cefnogaeth egnïol a brwdfrydig am yr ecosystem ar gyfer prysglwyni, coed a chynwysyddion plannu?

Ateb – *y Cynghorydd Michael*

Er 1997 pan gefais fy ethol, rydym bob amser wedi bod â chyfleoedd busnes i noddi popeth o feinciau i faneri a byddwn yn parhau felly. Os bydd unrhyw un eisiau dod gyda chynigion i noddi unrhyw blanhigion byddwn yn falch o'u hystyried.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Sandrey*

Mae'r adroddiad ymchwilio ardal ar gyfer y llynedd, sy'n adnabod blaenoriaethau cynllunio, trafnidiaeth ac amgylcheddol, heb ei gyhoeddi eto. Cefais wybod yn gyntaf y câi'r adroddiad ei gyhoeddi yn gynnar yn 2018, ac wedyn ym mis Mai 2018, ac nawr dywedwyd wrthyf, oherwydd manylion adnoddau staff, nid oes gan yr adroddiad ymchwilio ardal ar gyfer y llynedd unrhyw amserlen ddiffiniol ar gyfer cyhoeddi. Mae trigolion a ofynnodd i ardaloedd gael eu hadolygu fel rhan o'r adroddiad wrth gwrs yn rhwystredig oherwydd yr oedi hwn. Pryd bydd yr adroddiad yn gweld golau dydd?

Ateb – *Y Cynghorydd Wild*

Mae’r Cyngor yn ymchwilio i tua 500 i 600 o bryderon diogelwch ar y ffordd a hygyrchedd bob blwyddyn, ond wedi dweud hynny, mae’n rhaid i mi fod yn onest gyda chi, rwy’n siomedig nad yw’r Adroddiad Ymchwilio Diogelwch ar y Ffordd wedi dod i’r amlwg ynghynt. Os ydym am fod yn onest am hynny, mae’n rhannol oherwydd ein bod yn newid y ffordd y mae rhywfaint o hynny’n gweithio ac yn ei glymu wrth waith rydym yn ei wneud gyda Chynlluniau Gweithredu Wardiau a rhyw wasanaethau'n dod at ei gilydd; byddwch wedi gweld Mat Wakelam yr wythnos hon yn cael ei benodi i un o’r rolau hyn. Hoffwn ymddiheuro bod rhywfaint o hyn wedi dod i'r amlwg braidd yn hwyr.

Cwestiwn Ategol - *Y Cynghorydd Sandrey*

A oes gennych unrhyw syniad pryd y caiff yr adroddiad ei ryddhau felly?

Ateb – *Y Cynghorydd Wild*

Dylai fod yn gyflawn erbyn diwedd mis Hydref. Hoffwn ychwanegu, oherwydd nad yw’r adroddiad yno, nid yw’n golygu nad yw’r ymchwiliadau hynny’n digwydd, mae’r gwaith yn parhau, felly erbyn mis Hydref, Gynghorydd.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Owen Jones*

A all yr Aelod Cabinet ddweud wrthyf pa gynlluniau sydd gan Gyngor Caerdydd i fynd i’r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ein Parciau?

Ateb – *Y Cynghorydd Bradbury*

Mae ein Gwasanaeth Ceidwaid Parciau Trefol yn cymryd cyfrifoldeb dros orfodi ein his-gyfreithiau presennol, sy’n ceisio mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn parciau.

Rwy’n cydnabod bod angen adolygu rhai agwedd ar ein his-gyfreithiau, yn enwedig y rhai sy’n perthyn i reoli cŵn yn ein parciau, ac rwy'n ymwybodol bod hynny'n fater o bryder i ddefnyddwyr.

Wrth ystyried hyn, rwy’n bwriadu dod ag adroddiad i’r Cabinet i’r amlwg cyn gwyliau’r haf sy’n ceisio cymeradwyaeth i gychwyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar y cynnig i gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer ein mannau cyhoeddus, gan gynnwys ein parciau.

Bydd hyn yn galluogi’r Cyngor i gyflwyno ystod o fesurau sy'n perthyn i reoli cŵn mewn parciau.

Hefyd rydym eisiau cynyddu i ba raddau mae'r gymuned yn cymryd rhan mewn rheoli ein parciau oherwydd y gall cymryd rhan beri ymdeimlad o berchnogaeth. Byddwch yn gweithio'n agos iawn gyda Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, grwpiau cymunedol lleol a cheidwaid parciau i geisio dileu mater ehangach ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig yn ystod tywydd fel yr hyn y buom yn ei gael.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Owen Jones*

Fel y dywedwch, mae’r tywydd y buom yn ei gael yn ddiweddar wedi peri cynnydd dealladwy o ran defnydd parciau ein Dinas, mae'r parciau hyn yno i bawb, felly bues i'n drist iawn o glywed nifer o drigolion yn dod ataf i ddweud eu bod yn rhy ofnus i fynd â'u plant a hyd yn oed eu cŵn i'r parc, oherwydd y defnydd amlwg ar alcohol a chyffuriau sy'n digwydd a'r maint anferth o sbwriel a adewir ar ôl. Rwy’n sylweddoli bod mesurau yn cael eu cymryd a bod pwerau’n gyfyngedig ond mae’r ymddygiad gwrthgymdeithasol hwn fel arfer yn digwydd ar ôl amser ysgol; byddai’n galonogol weld ymagwedd aml-asiantaeth gan yr adrannau Parciau, Addysg a Gwastraff a’r Heddlu ar y mater hwn oherwydd, mae’n siwr, bod gan bob dinesydd ac ymwelydd â Chaerdydd deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus ym mhob parc, wrth fwynhau'r haul prin rydym yn ei weld.

Ateb – *Y Cynghorydd Bradbury*

Rwy’n cytuno’n llwyr, rwy’n meddwl, lle y bo materion o ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol byddwn yn gofyn i swyddogion sicrhau y byddai’r heddlu yn ymdrin â nhw, yn enwedig mewn perthynas â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

Mae’r tywydd yn wych ar hyn o bryd ac mae pobl yn mwynhau ein parciau i'r eithaf; dylwn ni fod yn eu hannog i wneud felly. Y neges allweddol gen i yw na fyddwch yn caniatáu i leiafrif bach o bobl ddifetha mwynhad ein parciau, boed yn barc cymunedol megis yr un rydych yn cyfeirio ato yn eich ward neu’r prif barciau megis Bute Park neu neu Coopers Field, Pontcanna neu unrhyw un o'r parciau mawr hynny rydym yn sôn amdanynt. Ni fyddwn yn ei oddef a byddwn yn gweithio gyda'r Heddlu i wneud yr hyn y gallwn i ddileu'r math hynny ar ymddygiad.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Phillips*

Bydd y rhaglen adeiladau ysgolion yn gweld cannoedd o filiynau o bunnoedd wedi’u hymrwymo i gontractwyr. Sut caiff rheoli ansawdd drwy gydol y gwaith hwn gael ei reoli a pha reolau cytundebol gaiff eu rhoi ar waith?

Ateb – *Y Cynghorydd Merry*

Bydd y rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif yn cynnwys llawer o ysgolion newydd eu hadeiladu ac e$^{st}$yniadau ar raddfa fawr.

Bydd gan bob project adeiladu reolwr projectau technegol, syrfëwr meintiau a rheolwr projectau mewnol pwrpasol, er mwyn sicrhau bod y contractwyr yn bodloni'r mesurau ansawdd a pherfformiad a osodwyd ar ddechrau'r projectau. Caiff y rhain eu mesur yn rheolaidd a gellir dal arian yn ôl pe na chyrhaeddir â safonau.

Fel rhan o’r amodau grant gyda Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i bob project gael ei gontractio trwy fframwaith adeiladau SEWSCAP. Caiff y fframwaith hwn ei reoli gan Gyngor Caerdydd ac mae’n darparu set o gontractwyr a gymhwysodd ymlaen llaw ac wy’n mynd trwy gystadleuaeth bellach ar lefel dyfarnu contract.

Caiff pob project ei dendro a'i arfarnu yn erbyn set gadarn o feini prawf gan y Cyngor, gan eu mesur yn erbyn cost a manylebau ansawdd. At hyn, bydd papur yn mynd i'r Cabinet ym mis Gorffennaf yn amlinellu capasiti a llywodraethu ar gyfer rhaglen ysgolion Band B y 21ain Ganrif.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Phillips*

Fel cefndir i'm cwestiwn, hoffwn i dynnu eich sylw i'r sefyllfa mewn un ysgol gynradd leol yn ein ward ble mae gennym waliau mewnol sy'n debyg i'r cerflun dŵr yn Roald Dahl Plass pan fydd yn bwrw glaw, mae gennym nenfydau sy'n cael eu difrodi'n gynyddol gan fynediad dŵr, ffenestri allanol a ddyluniwyd a'u hadeiladwyd mewn adeiladau lle y mae'r dyluniadau mewnol yn eu gorchuddio, sy'n wastraff o arian, drysau toiledau wedi'u crogi ar hap, sy'n agor am allan ac am i mewn heb ofal am grefftwaith, a ffenestri awtomataidd sy'n agos pan fydd yn bwrw glaw ac yn cau pan fydd yr haul yn tywynnu, y cyfan mewn adeiladu newydd sydd tua 5 mlwydd oed. Mewn mannau mae'n ymddangos eu bod wedi'u dylunio a'u hadeiladu'n wael. Os bydd yr awdurdod yn methu dal y contractwr yma yn atebol, bydd y contractwr hwn yn parhau i dderbyn contractau newydd enillfawr gan yr awdurdod.

A allech chi gadarnhau a ydych yn adeiladu gwarantau a chynlluniau cynnal a chadw ystyrlon i gontractau newydd, ar ôl eu cyflawni a hoffwn i'ch gwahodd, a fyddech cystal ag ymweld ag Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd er mwyn gweld y materion hyn drosoch chi eich hun?

Ateb – *Y Cynghorydd Merry*

Byddwn yn hapus iawn i ymweld ag Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd, nid oeddwn yn ymwybodol o'r problemau penodol yn yr achos hwn a hoffwn ddod i'w gweld drosof fy hun. Mae'n mynd i fod yn broses gadarn ac mae'n amlwg yn ogystal â'r papur ar gapasiti ar lywodraethu bydd papur ar fodel y landlord corfforaethol hefyd yn dod gerbron y Cabinet.

Cwestiwn – *Cynghorydd Carter*

Beth yw'r rhesymwaith dros droi allan elusennau lleol poblogaidd, sy'n darparu cefnogaeth o'r grud i'r bedd, o Neuadd Chwaraeon Llanedern?

Ymateb - *Y Cynghorydd Goodway*

Bydd y Cynghorydd yn ymwybodol bod gan y Cyngor bolisi o resymoli ei ystâd weithredol, yr oeddwn yn deall y mae ganddo gefnogaeth ar draws y pleidiau. Rwy'n fodlon bod adeiladau a chyfleusterau amgen wedi'u nodi i gefnogi'r gweithgareddau y mae'r Cynghorydd yn cyfeirio atynt, a, chan mai'r gweithgareddau ac nid yr adeilad sydd bwysicaf, mae'n ymddangos nad oes unrhyw rwystr i barhau yn ôl y cynllun.

Cwestiwn Atodol – *Cynghorydd Carter*

Ymdriniwyd â phenderfyniad i gau'r ganolfan a throi'r tenantiaid allan mewn ffordd hollol ofnadwy, ni fu unrhyw ymgynghoriad â'r Cynghorwyr, rhoddwyd 20 diwrnod i'r

tenantiaid eu hunain fyd ac erbyn yr adeg hon yr wythnos nesaf, bydd rhaid iddynt i gyd fynd. Nid oedd y Powerhouse, ein Hyb lleol, hyd yn oed, ddim yn ymwybodol y byddai pobl yn dod yn eu cyfeiriad nhw i wylio am lety tan i hysbysiadau fynd allan. Gyda'r amserlenni byr dan sylw a'r ffordd y cafodd hyn ei drin mewn ffordd anhygoel o gyflym, er gwaethaf y ffaith fod y pobl sy'n ymwneud â'r ganolfan cyswllt teuluol yn amlwg yn amlwg yn gwybod bod hyn yn dod, a allech chi roi ymrwymiad heno, i oedi ac ymchwilio i'r mater hwn a chwilio am atebion hir dymor posibl, ar y foment mae'r opsiynau sydd ar gael yn mynd i gostio £5,500 i'r prif grŵp cymunedol y Busy Whizzes, sef arian nad yw ganddynt, ac nid oes lle yn y Powerhouse i'w derbyn.

Yn yr un ffordd, gallai'r gwasanaeth hwn fynd i lawer o leoedd gwahanol yn y Ddinas ac nid ydym ni fel cynghorwyr wedi derbyn unrhyw gyfiawnhad, y 4 ohonom, o ran pam mae'n rhaid iddo ddod i'n ward ni, felly a allech o leiaf oedi ac ymchwilio.

Ymateb - *Y Cynghorydd Goodway*

Ni fyddaf yn rhoi ymrwymiad absoliwt i oedi, ond rwy'n barod i ddangos fy mod yn barod i fyfyrio arno gyda'r swyddogion, i mi y peth pwysig yw y caiff y gweithgareddau eu cadw a bod cyfleusterau amgen addas i gefnogi'r gweithgareddau hynny. Byddaf yn cael trafodaethau gyda'm swyddogion yn y bore, ac os bydd cyfiawnhad dros oedi, dyna beth a wnawn.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Burke-Davies*

Mae gan rieni hawl gyfreithiol i fwydo ar y fron yn unman o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ond nid llawer yn teimlo'n hyderus gwneud hynny. A all yr aelod cabinet roi datganiad o ran beth all Caerdydd ei wneud i sicrhau bod croeso i fwydo ar y fron a'i fod yn hygyrch i deuluoedd ledled y ddinas?

Ateb – *Y Cynghorydd Elsmore*

Bu'r Cyngor yn cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i sicrhau y cafodd Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd a Bydwreigiaeth eu hachredu'n llawn gan Fenter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF, Mae hyn yn sicrhau y caiff mamau sy'n bwydo ar y fron eu cefnogi'n llawn gan y timau iechyd. Yn nhermau'r hyn y gallwn ei wneud yn benodol, rwy'n credu bod hyn yn syrthio i mewn i 3 maes ar wahân, y maent i gyd wedi'u profi i annog cynaliadwyedd bwydo ar y fron, cefnogi ymgyrchoedd hyrwyddo iechyd cyhoeddus, boed hynny'n hysbysebu, dyweder ar Fws Caerdydd neu archwilio cynllun croeso i Fwydo ar y Fron mewn lleoedd cyhoeddus, cefnogi cyflogwyr i weithredu polisïau a darparu amgylcheddau addas, boed iddyn t astudio neu'n gweithio, a thrwy defnydd da ar ein hadeiladau, Hybiau, Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden, i ddarparu lleoliadau i'n mamau ddod at ei gilydd ar gyfer naill ai cefnogaeth rhwng cyfoedion neu gefnogaeth gan weithwyr iechyd proffesiynol.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Burke-Davies*

Byddaf yn datgan diddordeb amlwg. Mae'n wythnos ymwybyddiaeth bwydo ar y fron, defnyddiodd I Loves the Diff eu herthygl yn yr Echo yr wythnos hon i amlygu'r mater, ac er bod eu profiadau nhw a phrofiad llawer o bobl eraill o fwydo ar y fron yng

Nghaerdydd yn gadarnhaol yn bennaf, mae cyfraddau bwydo ar y fron yng Nghaerdydd yn isel o hyd. Fis Tachwedd diwethaf, lansiodd ein cydweithwyr yng Nghyngor Dinas Casnewydd eu cynllun Croesewir Bwydo ar y Fron Yma, lle y byddai busnesau yn arddangos y logo a byddent wedi mynychu sesiynau ymwybyddiaeth bwydo ar y fron wedi'u cefnogi gan eu bwrdd iechyd a chyngor lleol, dyma'r cynllun cyntaf o'i fath yng Nghymru, ac er fy mod, yn amlwg, wrth fy modd dros ein cyfeillion yng Nghasnewydd, ro'n i'n gandryll na wnaethon ni hyn yn gyntaf. Yn gyntaf, rwy'n gwybod eich bod wedi sôn am weithi gyda'r bwrdd iechyd lleol ond a oes opsiwn i osod amserlin o pryd gallwn ni gyflawni hynny?

Ateb – *Y Cynghorydd Elsmore*

Yn nhermau sgwrs a gefais gyda'r cydlynydd bwydo ar y fron, mae hi hefyd yn gyfrifol am ymwelwyr iechyd y bwrdd iechyd, cawsom sgwrs heddiw ac rwy'n credu bod llawer iawn y gallwn ei wneud gyda'n gilydd, byddwn yn fodlon iawn eich cynnwys yn y sgyrsiau hynny.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Bowden*

Mae'n ofynnol i bobl ifanc yng ngofal preswyl yr Awdurdod Lleol hwn adael y gofal hwn yn 18 oed, Fodd bynnag, mae gan y rhai sy'n derbyn gofal maeth yr hawl i 'aros yn y fan a'r lle' tan 21 oed. Beth mae'r Cyngor hwn yn ei wneud i roi stop ar y gwahaniaeth hwn mewn darpariaeth gofal ac i alluogi pob person ifanc yn ein gofal i gael y cyfle i 'aros yn y fan a'r lle tan 21 oed?

Ateb – *Y Cynghorydd Hinchey*

Nid yw'r rheoliadau presennol yn caniatáu i unrhyw dros 18 oed fyw mewn cartref plant ac felly, nid yw'r cynllun "pan fyddaf yn barod" yn berthnasol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r anghysondeb hwn ac mae'n ystyried y ffordd orau o ymestyn y cynllun hwn i gartrefi plant.

Fodd bynnag, mae gan bob plentyn sy'n gadael gofal dros 15 oed a chaiff plant eu cefnogi i'r ddarpariaeth briodol ôl 18 a gallant gael mynediad at wasanaethau gadael gofal tan 21 neu 25 os byddant yn parhau mewn addysg.

Cwestiwn Atodol – *Cynghorydd Bowden*

Rwy'n credu ein bod i gyd yn ymwybodol o'r materion sy'n codi o'n pobl ifanc yn gadael gofal yn 18 oed, ac felly mae'r rhai sydd mewn gofal maeth yn cael y cyfle i aros yn y fan a'r lle. Mae nifer o awdurdodau lleol o gwmpas y wlad wedi cefnogi'r ymgyrch hon er mwyn triniaeth gyfartal. A oes rhagor y gallwn ei wneud fel awdurdod i ddwyn pwysau ar Lywodraeth Leol i edrych ar ddeddfwriaeth yma yng Nghymru efallai?

Ateb – *Y Cynghorydd Hinchey*

Rwy'n derbyn yn llwybr bod rhagor bob amser y gallwn ei wneud dros y plant hynny yn ein gofal, fel y byddai pob rhiant corfforaethol yn y siambr hon yn ei wneud. Nid wyf yn siŵr a ydych yn ymwybodol bod yr iaith rhwng 'Stay Put' a 'When We are

Ready' yw'r fersiynau Cymraeg a Saesneg mewn ffordd ac yn amlwg mae'n well gennyf 'When I'm Ready' oherwydd dyna beth rydym ni eisiau ei gyflawni Yn nhermau yr hyn y gallwn ei wneud yn y dyfodol sef eich cwestiwn chi, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogaethol Llywodraeth Cymru a sefydlwyd eisoes ac rydym yn sicr wedi annog ein Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant sydd ar y grŵp Gweinidogaethol hynny yn arwain ar un o'r ffrydau hynny ac yn amlwg rydym eisiau edrych ar sut y byddem yn annog ac yn paratoi y bobl ifanc hynny at y brifysgol neu lety neu gymorth ac felly mae 4 Pennaeth Gwasanaeth yn rhan o'r ffrwd gwaith hynny gan gynnwys ein ffrwd gwaith ein hunain. Byddant yn cynnwys yr ystod o leoliadau, yr ansawdd, yr argaeledd a'r ddarpariaeth a byddwn yn dod â phapur gerbron yn fuan iawn ar sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r diffyg lleoliadau yng Nghymru ac yn cynyddu ein carfan maethu yng Nghaerdydd, byddaf yn anfon neges atoch i gynnwys y darnau na lwyddais i'w cynnwys.

Cwestiwn – *Cynghorydd Cowan*

Faint mae'n costio i anfon cerbyd gwastraff a'i griw yn ôl i eiddo i gasglu sbwriel a fethwyd?

Ateb – *y Cynghorydd Michael*

Mae'r ymateb i'r cwestiwn hwn yr un peth â'r tro diwethaf i chi ei ofyn i'm rhagflaenydd nifer o flynyddoedd yn ôl.

Nid ydym yn cadw gwybodaeth yn sy'n perthyn i gost benodol anfon criwiau yn ôl i gasglu gwastraff a fethwyd, oherwydd bod rhaid iddynt gael eu casglu o hyd fel rhan o'r gyllideb o gasgliadau gwastraff, p'un ai a ydym yn mynd yn ôl amdanynt neu beidio.

Byddwn yn monitro ystadegau casgliadau a fethwyd a byddaf yn anfon ystadegau fesul mis i chi ar gyfer Rhiwbeina am y flwyddyn diwethaf os bydd hynny'n eich helpu. I'ch helpu ymhellach byddaf yn dweud wrthych, ym Mai 2017, roeddem yn rhedeg ar ychydig dros 18000 o gasgliadau a fethwyd, ac ym mis Mai eleni rydym i lawr i 13147 sy'n ostyngiad sylweddol, yn nhermau canrannau, soniodd y Cynghorydd Weaver ein bod yn gwneud miliynau o gasgliadau, rydym yn ymylu ar tua 20 miliwn, sy'n golygu bod gennym gyfradd llwyddiant o 99.97%. Hoffwn ei chael i fyny at 100%. Hoffwn dorri'r 13000 i lawr i ddim byd ac rydym yn gweithio arno.

Cwestiwn Atodol – *Cynghorydd Cowan*

Rwyf ychydig yn bryderus nad yw'r swyddog cyllid yn y siambr oherwydd fy mod yn credu y bydd yn bryderus iawn i wybod, 2 flynedd yn ôl a nawr, ni allwn o hyd gostio faint mae'n ei gostio i anfon cerbyd yn ôl a chostau'r staff. Rwy'n gwerthfawrogi beth rydych yn ei ddweud, mae angen eu casglu ond gallent fod yn gwneud pethau eraill megis mynd yn ôl i Riwbeina, Llysfaen neu'r Eglwys Newydd neu ble bynnag, gosodir y dasg iddynt wneud y gwaith maent yn cael eu cyflogi i'w wneud. Rwy'n credu ei cod yn hollol warthus, mae'n rhaid i mi ddweud, nad oes gennych chi'r ffigwr hwn wrth law.

Mae'n rhaid i mi ddweud bod Rhiwbina yn dioddef go iawn, rydym yn cael diffyg gwybodaeth, diffyg ymatebion amserol ac mae meddylfryd torri a gludo yr awdurdod hwn yn hurt – rydym yn llythrennol yn cael yr un ateb i bob cwestiwn. Beth rydym eisiau ei weld yw atebion, ydych chi'n cytuno?

Ateb – *y Cynghorydd Michael*

Mae gennych ateb syml, mae cerbydau'n torri i lawr, caiff casgliadau eu methu, mae wedi bod felly ers y diwrnod cyntaf a bydd yn parhau i fod felly. Rwyf newydd dweud bod gennym gyfradd llwyddiant o 99.97%, os ydych yn gwybod am unrhyw gwmni preifat sy'n gwneud yr un gwaith ac y gallai wneud yn well, mae'n well i chi roi gwybod i mi a byddaf yn mynd i gwrdd â nhw, byddwn yn gofyn iddyn nhw sut maen nhw'n ei wneud a byddaf yn ei gopïo. Dydyn ni ddim yn ymosod ar Riwbeina, dydyn ni ddim yn ymosod ar unrhyw safle, beth rydyn ni'n ei wneud yw rhoi gwasanaeth o'r radd flaenaf, yn enwedig yn sgil y toriadau rydym wedi gorfod eu hwynebu diolch i'ch Llywodraeth yn San Steffan.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Molik*

Mae rhieni yng Nghyncoed a Lakeside, sydd wedi byw yn yr ardal ers nifer o flynyddoedd, plant gyda rhesymau iechyd cymhellol neu frodyr neu chwiorydd mewn ysgol gynradd leol yn cael eu gwrthod ar gyfer lle yn eu hysgol gynradd leol ac ysgolion o fewn radiws o dros 2 filltir. Ydy'r cyngor yn cydnabod eu bod yn methu bodloni anghenion teuluoedd a bod diffyg capasiti mewn ysgolion yn yr ardal?

Ateb – *Y Cynghorydd Merry*

Ni wrthodwyd mynediad i unrhyw blant â seiliau cymhellol i ysgolion cynradd yng Nghyncoed neu Lakeside eleni.

Ni wrthodwyd lle i unrhyw blant sy'n byw yn nalgylchoedd Ysgolion Cynradd Rhydypenau a Lakeside, a chyda brodyr neu chwiorydd yn mynychu'r ysgolion hynny, yn yr ysgolion hyn.

Derbyniwyd pob plentyn sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Lakeside, a wnaeth gais i'r ysgol, eleni.

Rhoddwyd gwybod i bob plentyn sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Rhydypenau nad oedd yn gallu cael lle yn yr ysgol honno, am leoedd sydd ar gael mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg eraill, gan gynnwys pum ysgol gyfagos. Roedd hyn yn golygu na fyddai angen i unrhyw un o'r plant hyn deithio mwy na 1.1 milltir o'i gartref.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Molik*

Mae lleoedd annigonol mewn ysgolion cynradd yn broblem barhau mewn ardal deuluol ddymunol iawn megis Cyncoed a Lakeside Bydd teuluoedd yn symud i'r ardal hon i ddarparu'r gorau i'w plant ac i sicrhau bod plant yn mynychu ysgolion lleol. Fodd bynnag mae ein Cyngor yn methu bodloni'r galwadau hynny, a chyda thai cynyddol yn yr ardal bydd y broblem yn gwaethygu. Mae cyllid BandB ond yn canolbwyntio ar ddarpariaethau ysgolion uwchradd. Gan ein bod yn ceisio annog

plant i gymryd llwybrau teithio lleso i'w hysgolion, sut gallwch chi sicrhau y bydd plant yng Nghyncoed a Lakeside yn mynychu eu hysgolion lleol?

Ateb – *Y Cynghorydd Merry*

Fel rwyf eisoes wedi dweud, Gynghorydd Molik, mewn gwirionedd mae 5 ysgol gynradd gyfagos sy'n golygu na fyddai unrhyw un o'r plant hynny deithio mwy na 1.1 milltir o'u cartref ac oni bai bod gennych wybodaeth i'r gwrthwyneb y gallwch ei darparu ar wahân y tu allan i'r cyfarfod hwn, rydych chi mewn gwirionedd yn ffeithiol anghywir ynglŷn â brodyr a chwiorydd. Yr hyn y byddwn yn ei wneud yw ein bod yn ymwybodol iawn o'r pwysau ar ein hysgolion cynradd a dyna pam na wnaethon ni gytuno i awgrym y Democratiaid Rhyddfrydol yn ein Polisi Derbyniadau o ran ysgolion bwydo i ysgolion uwchradd. Rwy'n siŵr y byddech yn deall goblygiadau'r polisi hwnnw pe bai wedi cael ei fabwysiadu, i'ch etholwyr a fyddai wedyn wedi llwyddo i gael mynediad at Ysgol Uwchradd Caerdydd.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Dilwar Ali*

A all yr aelod cabinet wneud datganiad ynglŷn â thynnu ac adnewyddu cladin mewn adeiladau uchel a perchnogir gan y cyngor ledled Caerdydd?

Ateb – *Y Cynghorydd Thorne*

Bydd aelodau'n ymwybodol bod Caerdydd yn rhagweithiol wrth wirio diogelwch ein blociau tai uchel, er nad oedd ganddyn nhw yr un cladin ACM â'r hyn a ddefnyddiwyd ar Dŵr Grenfell. Gwelwyd bod gan chwe bloc gladin nad yw'n cyrraedd safonau hylosgedd presennol.

Bydd gwaith yn dechrau'n fuan i dynnu'r cladin hwn o Nelson House yn Butetown ac o dri bloc yn Fflatiau Lydstep yn eich ward chi.

Mae trefniadau hefyd yn cael eu gwneud i dynnu'r cladin yn Nhrem y Môr yn Grangetown ac yn Loudoun House yn Butetown. Ni chodir ar lesddalwyr am y gwaith hwn.

Tra bod y trefniadau hyn yn cael eu gwneud bydd yr wyliadwriaeth tân 24 awr yn parhau mewn grym er mwyn sicrhau bod y tenantiaid yn ddiogel. Hefyd caiff y blociau eu monitro gan Deledu Cylch Cyfyng drwy'r Ganolfan Derbyn ar gyfer Larymau.

Er bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i adnewyddu'r cladin, mae angen i ni sicrhau bod yr holl wersi o drasiedi Tŵr Grenfell yn cael eu dysgu a bod y cladin newydd yn hollol ddiogel.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Dilwar Ali*

Mae nifer o'm hetholwyr wedi cysylltu â mi parthed amserlen y gwaith, a allwch chi gadarnhau neu anfon manylion trwy e-bost?

Ateb – *Y Cynghorydd Thorne*

Bydd angen i mi ddod yn ôl atoch ar yr amserlenni

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Robson*

A roddwyd unrhyw ystyriaeth i raddoli goleuadau traffig o blaid bysus sy'n rhedeg y tu ôl i'r amserlen?

Ateb – *Y Cynghorydd Wild*

Mae'n syniad da, ac rwy'n credu efallai nid yn unig bysus sy'n rhedeg yn hwyr ond bysus sydd mewn gwasanaeth, unrhyw help y gallwn ei roi iddynt, mae 10 eiliad fan hyn a 30 eiliad fan yna fel ei fod yn fwy deniadol i bobl ar y teithiau gwasanaethau cyhoeddus yn bwysig. Dydw i ddim yn credu ei fod yn hollol syniad, dyna yw fy nealltwriaeth yn nhermau gofynion technegol y bysus a gofynion llyw lloeren y bysus i ni wneud hynny. Rwy'n credu ein bod yn gobeithio bod rhywfaint o welliannau i ddod i'r amlwg gan Drafnidiaeth Cymru fel rhan o'r Metro a hefyd fel rhan o'r gwaith rydym yn ei wneud a gwmpas y Papur Gwyrdd i weld sut y gallwn wella'r gwasanaeth bysiau a rhywfaint o'r dechnoleg sy'n caniatáu i ni wneud y pethau hyn.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Robson*

Byddwn yn eich annog ynglŷn ag amserlenni, rwy'n gwerthfawrogi eich bod yn siarad am pan fydd y Papur Gwyrdd yn orffenedig a phan fydd Trafnidiaeth Cymru yn cyflwyno eu cynigion ond gadewch i ni fwrw ymlaen gyda hwn, yr enghraifft benodol hon, mae enillion cyflym ar gyfer pob bws ar gyfer pob bws sy'n defnyddio'r Ddinas a fydd, rwy'n siŵr, hefyd yn gwneud gwahaniaeth mawr ond rwy'n meddwl bod rhaid i'r dechnoleg fod yno fwy neu lai, efallai na chafodd ei dreialu yn y rhan hon o'r byd ond mae'n rhaid bod ardaloedd eraill sy'n ei wneud, daeth yr adroddiad yn sicr o ardal cyngor arall a gallwn ddysgu gwersi oddi wrthyn nhw a bod yn arloeswyr mewn gwirionedd yn y DU, yn sicr i Gymru wrth wneud hyn oherwydd bod llawer o fysus yn dod i mewn i'r Ddinas ac mae'r ychydig o eiliadau hynny wrth set o oleuadau traffig yn adio i fyny'n fuan i lawr o funudau gan arbed amser, rhedeg ar amser neu flaenoriaethu yn ôl yr angen.

Ateb – *Y Cynghorydd Wild*

Rwy'n cytuno'n llwyr, os oes gennych wybodaeth am y Ddinas arall honno, rhowch wybod i mi, rwy'n credu ei fod yn debyg i docynnu integredig, onid yw e, wyddoch chi, gwasanaethau gwahanol i gyd yn gweithredu mewn Dinas a sut mae eu cael i weithio gyda'i gilydd. Wyddoch chi, rwy'n awyddus i wneud y pethau hyn, Gynghorydd Robson ond diolch eto a rhowch wybod i mi am y Ddinas arall honno.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Sandrey*

Cafodd fy nghyfeillion a finnau gyfarfod yn gyntaf gyda'r Cynghorydd Russell Goodway ym mis Chwefror, parthed yr uned My Local/Pentwyn Arms ar Pentwyn Drive – dydyn ni ddim wedi clywed unrhyw beth ers hynny, er gwaethaf siarad am

gyfarfodydd misol ac er gwaethaf fy mod i wedi dilyn y mater trwy e-bost. Pryd gallwn ni ddisgwyl diweddariad ar y mater hwn?

Ymateb - *Y Cynghorydd Goodway*

Yn fuan.

Cwestiwn Ategol - *Y Cynghorydd Sandrey*

Pa mor fuan?

Ymateb - *Y Cynghorydd Goodway*

Nid yn fuan iawn.

Cwestiwn - *Cynghorydd McGarry*

Yn 2013 bu ymgyrch hysbysebu; o'r enw "The Usual Suspects" i addysgu pobl o ran pa droseddau sbwriela y gellir eu cosbi gyda dirwy. A oes gan yr Aelod Cabinet unrhyw gynlluniau am ymgyrch arall yn y dyfodol agos, oherwydd fy mod yn credu bod angen hwn.

Ateb – *y Cynghorydd Michael*

Mae annog pobl i waredu gwastraff a sbwriel yn gywir yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Ystyrir sbwriela yn drosedd dim goddefgarwch, sy'n dod â chosb o £80.

Mae'r ymgyrch Usual Suspects flaenorol bellach wedi esblygu i'r brandio 'Carwch eich Caerdydd' a chynllunnir gwahanol ymgyrchoedd o dan yr ymbarél hwn.

Er enghraifft, mae'r ymgyrch bresennol "Caru Cyn i chi Adael" wedi'i thargedu yn bennaf at annog myfyrwyr i waredu eich gwastraff yn gyfrifol cyn gadael Caerdydd. Cynllunnir ymgyrchoedd eraill eleni mewn perthynas â thipio anghyfreithlon, baeddu cŵn a sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu.

Mae pob ymgyrch wedi'i chynllunio'n ofalus ac mae wedi'i dargedu i sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf – er enghraifft cyflwyno biniau 'pleidleisio' ochr yn ochr â'n hymgyrch i fynd i'r afael â sbwriel ysmygu (esboniaf os gofynnwch i ni). Cyflwynir negeseuon allweddol yn effeithiol trwy arwyddion ledled y ddinas, gan gynnwys ar lwybrau cyflymder uchel.

Cwestiwn Atodol – *Cynghorydd McGarry*

Mae'n broblem fawr, wnaethoch chi ddim sôn am boeri yn y rhestr sbwriela honno a gellir rhoi dirwy o £80 am boeri.  Rwy'n meddwl am orfodi, ydyn ni efallai yn mynd i gael disgyniad a chyflogi mwy o swyddogion gorfodi i roi dirwyon i bobl fel y bydd pobl yn gweld eu bod yn mynd i gael dirwy am ollwng sbwriel a byddant siŵr o fod yn talu eu ffordd os byddant yn rhoi dirwyon i bobl.

Ateb – *y Cynghorydd Michael*

Rwy'n hapus i anfon ystadegau i chi o'r holl gamau gorfodi rydym wedi'u cymryd, y broblem gyda llawer o'r pethau hyn yw gweld pobl yn ei wneud e go iawn, does neb eisiau gweld unrhyw un yn poeri ond mae'n rhaid bod swyddog gorfodi yn dyst iddo. Rwyf wedi awgrymu yn y gorffennol bod unrhyw aelod o'r cyhoedd yn gallu cwyno, rydyn ni'n gweld poeri bob dydd, beth am bob gêm pêl-droed, mae'n drosedd ond does neb yn gwneud unrhyw beth yn ei gylch.  Y broblem yw bod rhaid i chi eu gweld yn gwaredu'r sbwriel, yn gweld y ci yn baeddu a does dim digon o swyddogion gorfodi i wneud hynny ble y gallwn gymryd camau gweithredu.

Cwestiwn – *Cynghorydd Cowan*

Fydd yr Aelod Cabinet yn dweud faint o fannau chwarae o dan berchnogaeth y Cyngor sydd wedi cael offer chwarae wedi'i dynnu i ffwrdd ers 2017, a faint ohonyn nhw sy'n aros am gyllid er mwyn i'r darnau gael eu hadnewyddu neu eu hatgyweirio?

A allwn ni gael dadansoddiadau o'r costau a hefyd y wardiau?

Ateb – *Y Cynghorydd Bradbury*

Gallaf gadarnhau, allan o 117 o barciau ledled y Ddinas, mae 23 o fannau chwarae wedi cael offer wedi'i gymryd i ffwrdd ers mis Ionawr 2017.

Cafodd cyllid ei glustnodi am 7 o'r mannau chwarae hyn trwy ddefnydd arian Adran 106.

Heblaw am arian Adran 106, mae arian cyfalaf ar gael i alluogi adnewyddu rhagor o eitemau offer o'r 16 o safleoedd eraill; fodd bynnag, caiff graddau'r rhaglen eu rheoli gan y gyllideb sydd ar gael.

Y 18 ward lle y mae'r mannau chwarae yw:

Adamsdown, Butetown, Treganna, Caerau, Trelái, Cyncoed, Grangetown, Llandaf, Ystum Taf, Llanisien, Tredelerch, Pentwyn, Radur a Phentrepoeth, Rhiwbeina, Glanyrafon, Rhymni, Sblot a Trowbridge.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi fod yn fwy penodol yn nhermau eich cais am ddadansoddiadau cost, ond rwy'n hapus i helpu mewn unrhyw ffordd y gallaf.

Cwestiwn Atodol – *Cynghorydd Cowan*

Rydych yn sôn yn eich datganiad bod rhywfaint o gyllid ar gael er mwyn gwneud rhywfaint o adnewyddiadau, dywedwyd wrthym mewn rhan o un parc, gallen ni fod wedi cael rhywfaint o waith wedi'i wneud ar rai ohonyn nhw ond mae rhywfaint wedi cael eu cymryd i ffwrdd a dywedwyd wrthon ni nad oes unrhyw gyllid ar gael o gwbl ac y byddai'n rhaid ei wneud drwy arian Adran 106, dydw I ddim yn gwybod a ydyn ni'n ffodus neu'n anffodus i beidio â bod ag arian adran 106, rwy'n credo efallai'n eithaf ffodus, ond mae ardal fawr yn Rhiwbeina ym Mharc Caedelyn lle y bydd bron dim offer, a allech chi archwilio hynny oherwydd y dywedoch chi fod rhywfaint o arian

ar gael, a allen nhw ddyrannu rhywfaint i Barc Caedelyn a rhywfaint i fan agored Llanisien Fach – croesewid hynny.

Ateb – *Y Cynghorydd Bradbury*

Allaf i ddim gwneud yr ymrwymiad hwnnw yma oherwydd ei fod yn seiliedig ar system o angen yn nhermau pa offer a gafodd ei ddifrodi fwyaf ac wedi cael ei gymryd i ffwrdd. Roedd cyllid cyfalaf o £90 mil ar gael yng nghyllideb 2018/19, ond byddaf yn ymrwymo i gyfarfod â chi a'ch cyfeillion yn y ward ar y pwnc hwn i weld sut y gallwn ddatrys y mater hwn, sydd yn amlwg yn bwysig iawn i'ch etholwyr.

37 : MATERION BRYS

Dim

38 : ATODLEN TALIADAU AELODAU 2018 - 2019

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol yr Aelodau 2018-2019 yn unol â Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'w cyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf 2018.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cyngor yn

(i) cymeradwyo Atodlen Cydnabyddiaeth yr Aelodau 2018-2019 i'w chyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf 2018; a

cymeradwyo dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro ddiweddaru'r Atodlen Taliadau Cydnabyddiaeth Aelodau ac i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Atodlen 2018-2019 (a gyhoeddwyd o fen y Cyfansoddiad) o bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn ariannol er mwyn dangos unrhyw newidiadau mewn aelodaeth o'r Cyngor, Cabinet neu Bwyllgorau neu o ganlyniad i unrhyw Adroddiadau Ategol wedi'i gyflwyno gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

39 : PENODI LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL I GYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol 7 Mehefin 2018

PENDERFYNWYD –

1. y dylid cymeradwyo'r penodiadau canlynol i swyddi gwag presennol -

| **Ysgol** | **Ward** | **Dechrau'r Swydd Wag** | **Penodiad wedi'i gymeradwyo** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Adamsdown | Adamsdown | 18/04/2018 | Y Cyng Owen Jones |
| Ysgol | Y Tyllgoed | 06/03/2018 | Jean Fudge |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Uwchradd Cantonian | | | |
| Ysgol Gynradd Gatholig Crist y Brenin | Llanisien | 01/04/2018 | Vicki Woods |
| Ysgol Gynradd Danescourt | Llandaf | 26/07/2017 | Y Cyng Sean Driscoll |
| Ysgol Gynradd Lansdowne | Treganna | 19/09/2017 | Michelle Townsend |
| Ysgol Gynradd Tredelerch | Tredelerch | 03/02/2018 | Stella Dunstone |
| Ysgol Gynradd Gatholig St Patrick | Grangetown | 16/09/2016 | Nasir Adam |
| Ysgol Gynradd Trelái | Caerau | 09/09/2017 | Geoff Morgan |
| Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd | Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais | 04/10/2016 | Eleri Allsobrook |

2. y dylid cymeradwyo'r penodiadau canlynol i swyddi gwag Awdurdod Lleol yn y dyfodol

| **Ysgol** | **Ward** | **Dechrau'r Swydd Wag** | **Penodiad wedi'i gymeradwy** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Baden Powell | Sblot | 24/10/2018 | Gill Dallow |
| Ysgol Uwchradd Cantonian | Y Tyllgoed | 26/09/2018 | Alvyn Morgan |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi | Llys-faen | 17/09/2018 | Kath Brown |
| Ysgol Uwchradd y Dwyrain | Tredelerch | 24/10/2018<br>24/10/2018 | Barbara Cooke<br>Chris Taylor |
| Ysgol Gynradd Llanedern | Pentwyn | 23/07/2018 | Nicola Whitefield |
| Ysgol Gynradd Moorland | Sblot | 18/06/2018 | Rachel Barnett |
| Ysgol Gynradd Pencaerau | Caerau | 24/09/2018<br>24/09/2018 | Pamela James<br>John Skelton |
| Ysgol Gynradd Peter Lea | Y Tyllgoed | 27/06/2018<br>24/10/2018 | Patricia Thomas<br>Matthew Cook |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Gyfun Radur | Radur A Phentre-Poeth | 26/09/2018 | John Wilson |
| Ysgol Gynradd y Rhath | Plasnewydd | 24/07/2018 | Y Cyng Peter Wong |
| Ysgol Gynradd Severn<br>2 swydd wag | Glan-yr-afon | 27/06/2018<br>26/09/2018 | Christine Newman<br>Gareth Jones |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul | Grangetown | 03/07/2018 | Gordon Bell |
| Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf | Llandaf | 26/09/2018 | Sarah Cullen |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr | Y Tyllgoed | 17/09/2018<br>17/09/2018 | Ruth Parry<br>Evan Morgan |

40 : AELODAETH PWYLLGOR

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi aelodaeth Pwyllgorau yn dilyn y cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 24 Mai 2018 ac i gymeradwyo unrhyw enwebiadau pellach i swyddi gwag yn unol â dymuniadau grwpiau gwleidyddol a adroddir ar y daflen diwygiadau i'r Cyngor.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r penodiadau canlynol i swyddi gwag ar y Pwyllgor yn unol â dymuniadau Grŵp y Blaid:

| **Pwyllgor** | **Penodiad** |
|---|---|
| Craffu Amgylcheddol | Y Cynghorydd Derbyshire |
| Craffu'r Economi a Diwylliant | Y Cynghorydd Henshaw |

41 : PENODI I GYRFF ALLANOL

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo penodi cynrychiolwyr y Cyngor i gyrff allanol statudol ac anstatudol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r enwebiadau canlynol

| **Corff** | **Penodiad** |
|---|---|
| Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro | Irene Humphries |
| Cyngor Ymgynghorol Sefydlog dros Addysg Grefyddol (SACRE) | Y Cynghorydd Jones Pritchard<br>Y Cynghorydd Norma Mackie |
| Ymddiriedolaeth Elusennol | Y Cynghorydd Peter Bradbury |

| | |
|---|---|
| Stadiwm yn Mileniwm | |
| Ymddiriedolaeth Cartrefi er cof am Willie Seager | Y Cynghorydd Ashley Lister |

42 : RHAGLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR, CABINET A CHYFARFODYDD CYFFREDINOL 2018 - 2019

Derbyniodd y Cyngor raglen derfynol y cyfarfodydd y Cyngor Llawn, y Cabinet a Phwyllgorau ar gyfer y cyfnod Mehefin 2018 tan Awst 2019 yn dilyn unrhyw newidiadau a wnaed neu mewn ymgynghoriad â Chadeiryddion etholedig Pwyllgorau ar gyfer y Flwyddyn Fwrdeistrefol 2018-2019.

PENDERFYNWYD: Nododd y Cyngor raglen derfynol dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor, Cabinet a Phwyllgorau ar gyfer mis Mehefin 2018 – mis Awst 2019.

43 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.